Grŵp Menter, Cysylltedd ac Ynni
Economy, Connectivity and Energy Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: qA2280938
qA2282120
qA2282121

Dyddiad 13 Tachwedd 2026

Annwyl Syr/Fadam

DEDDF PRIFFYRDD 1980
DEDDF CAFFAEL TIR 1981

GORCHYMYN CEFNFFORDD DOLGELLAU I FAN I'R DE O BENBEDW (A494) (ADNEWYDDU PONT AFON DYFRDWY) 202- ("Gorchymyn Rheilffordd a Phont")

GORCHYMYN CEFNFFORDD DOLGELLAU I FAN I'R DE O BENBEDW (A494) (GWELLIANT CYFNEWIDFA QUEENSFERRY I GARDEN CITY) (FFYRDD YMYL) 202-

GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU (CEFNFFORDD DOLGELLAU I FAN I'R DE O BENBEDW (A494) (GWELLIANT CYFNEWIDFA QUEENSFERRY I GARDEN CITY) 202- ("y GPG")

(gyda'i gilydd - "y Gorchmynion")

ADNEWYDDU PONT AFON DYFRDWY AR GEFNFFORDD DOLEGLLAU I FAN I'R DE O BENBEDW (A494) (GWELLIANT CYFNEWIDFA QUEENSFERRY I GARDEN CITY) - PENDERFYNIAD ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL O DAN RAN VA O DDEDDF PRIFFYRDD 1980, A

RHEOLIAD 63 O REOLIADAU GWARCHOD CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU 2017: ASESIAD O'R GOBLYGIADAU I SAFLEOEDD EWROPEAIDD

TREFNIADAU DIRPRWYO

1. Gall Gweinidogion Cymru arfer y pwerau i wneud y Gorchmynion a nodir uchod yn rhinwedd erthygl 2**,** ac Atodlen 1**,** o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac adran 162 a pharagraff 30 o Atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r penderfyniad ynghylch a ddylid gwneud y Gorchmynion ai peidio yn dod o dan gyfrifoldeb y Dirprwy Weinidog dros Drafnidiaeth,

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ

Mark Hooper, AS ("y Gweinidog"), sy'n gweithredu o dan awdurdod Gweinidog y Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, un o Weinidogion Cymru.

CYFLWYNIAD

2. Cefnffordd yr A494 o Ddolgellau i Dde Penbedw yw'r prif lwybr rhwng Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr. Mae'r briffordd yn cysylltu cymunedau yng ngogledd Cymru ac mae hefyd yn llwybr twristiaeth allweddol sy'n cludo traffig rhwng Lloegr a Gogledd Cymru. Yn fwy lleol, mae'r A494 yn darparu cyswllt economaidd lleol a rhanbarthol hanfodol rhwng Wrecsam, Glannau Dyfrdwy, Caer, Lerpwl a Manceinion.

3. Cynnig Llywodraeth Cymru yw darparu pont newydd dros ddyfroedd mordwyol Afon Dyfrdwy i'r de-ddwyrain o'r bont bresennol.

4. Mae archwiliadau ar y bont wedi cofnodi tystiolaeth o ddirywiad yn y dec concrid sydd wedi parhau er gwaethaf gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio rheolaidd. Os na wneir dim byd, bydd y strwythur yn parhau i ddirywio, ac efallai y bydd angen cyflwyno cyfyngiadau pwysau a/neu gau lonydd er mwyn cynnal Pont Afon Dyfrdwy yr A494 yn y tymor byr i ganolig ac efallai y bydd angen ei chau yn y tymor hir.

5. Mae'r bont bresennol yn cludo oddeutu 70,000 o gerbydau bob dydd. Byddai unrhyw gynllun i gau'r ffordd am gyfnod hir er mwyn disodli rhannau sydd wedi dirywio yn arwain at darfu ac oedi difrifol i siwrneiau i ddefnyddwyr y bont a'r rheini sy'n defnyddio'r rhwydwaith ffyrdd lleol.

6. Mae Gweinidogion Cymru yn cynnig cynllun i adeiladu pont newydd yn uwch i fyny'r afon na'r groesfan bresennol. Enw'r cynllun arfaethedig yw Cynllun Adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy yr A494 (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y "Cynllun").

7. Bydd y bont newydd a llawer o'r briffordd yn cael eu hadeiladu oddi ar y ffordd bresennol er mwyn amharu cyn lleied â phosibl ar ddefnyddwyr y ffordd. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd traffig yn cael ei ddargyfeirio i'r bont newydd, gan ganiatáu i'r bont bresennol gael ei dymchwel.

8. Dyluniwyd y Cynllun i fodloni'r Amcanion Cynllunio Trafnidiaeth penodol a ganlyn a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid ac a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru:

   TPO 1. Cynnal cysylltedd coridor strategol yr A494 drwy fynd i'r afael â Phont Afon Dyfrdwy sydd wedi cyrraedd diwedd ei hoes.

   TPO 2. Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i newid dulliau teithio drwy wella'r ddarpariaeth o ddulliau teithio amgen.

   TPO 3. Lleihau cyfanswm allyriadau carbon y cynllun drwy roi mesurau lleihau carbon ar waith wrth ddylunio, adeiladu a gweithredu.

   TPO 4. Cynnal a chadw'r amgylchedd lleol, a'i wella drwy sicrhau budd net i fioamrywiaeth yn y tymor hir.

Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ

TPO 5. Gwella cadernid ar goridor yr A494 drwy leihau effeithiau digwyddiadau a damweiniau a chynyddu diogelwch ar gyfer defnyddwyr y ffordd a staff cynnal a chadw.

TPO 6. Cynnal cysyllted ar hyd coridor strategol yr A494 yn ystod y cyfnod adeiladu er mwyn lleihau'r effaith ar breswylwyr, busnesau, a thraffig lleol a strategol.

Y CYNLLUN

9. Mae'r Cynllun yn cynnwys:

(1) pont Afon Dyfrdwy newydd i gario dwy lôn o draffig i'r ddau gyfeiriad a llwybr beiciau cyfagos (gyda hawl tramwy ar droed), a rennir â thrac cynnal a chadw'r gefnffordd, sy'n integrol i'r A494(T);

(2) gwelliannau i gerbytffordd bresennol yr A494(T), i'r dwyrain o ble mae'r ffordd yn mynd o dan Reilffordd Arfordir y Gogledd (CNH3), gan gynnwys cyflwyno llain galed newydd i bob cyfeiriad yn cysylltu â'r lleiniau caled presennol i'r dwyrain o Afon Dyfrdwy, gwelliannau i aliniad a chyflwyno systemau draenio cynaliadwy;

(3) cyffordd flaenoriaeth newydd sy'n cysylltu ardal Riverside (i'r de o'r Bont Afon Dyfrdwy newydd) i gerbytffordd yr A494(T) tua'r gorllewin;

(4) ffordd gyswllt newydd i'r briffordd sy'n cysylltu'r gyffordd â blaenoriaeth a ddisgrifir yn (3) uchod â safle Sipsiwn a Theithwyr Riverside, eiddo masnachol ar lan de-orllewinnol Afon Dyfrdwy, a gorsaf bwmpio'r afon;

(5) llwybr beiciau, ar gyfer cerddwyr a beicwyr, ynghyd â gwaith cynnal a chadw ar y llwybr mynediad i gerbydau, sy'n mynd ar hyd ochr de-ddwyreiniol y lôn tua'r gorllewin, sy'n integrol i'r A494(T), rhwng Cyfnewidfa Queensferry a llwybr beicio integrol yr A494(T) ar ochr ogledd-ddwyreiniol Afon Dyfrdwy. Bydd llwybr beicio newydd ar yr A494(T) yn darparu cysylltiadau â - (i) Llwybr Arfordir Cymru/NCN 568 ar ochr ogledd-ddwyreiniol Afon Dyfrdwy, yn ogystal â'r llwybr beicio'r gefnffordd i'r gogledd-ddwyrain o'r afon sy'n rhedeg drwy Gornel y Drome a Sealand Road ac sy'n cysylltu â nhw; (ii) cysylltiad y llwybr beiciau lleol newydd â'r B5441 Station Road a grybwyllir yn (6) isod; (iii) y cyswllt llwybr beicio lleol newydd â ffordd ddiddosbarth Factory Road a grybwyllir yn (7) isod; a (iv) y rhwydwaith llwybr beiciau integrol a thanffordd Cyfnewidfa Queensferry, ar ochr de-ddwyreiniol yr A494(T);

(6) llwybr beiciau newydd, ar gyfer cerddwyr a beicwyr, a rennir â llwybr gerbydau â mynediad preifat, sy'n rhedeg o bwynt terfyn gogledd-orllewinol y ffordd gyswllt y briffordd a ddisgrifir yn (4) uchod, sy'n ymestyn tua'r gogledd-ddwyrain, yna tua'r gogledd-orllewin yn gyffredinol, gan groesi o dan y bont newydd ar lan de-orllewinol Afon Dyfrdwy, sy'n cysylltu â'r B5441 Station Road;

(7) llwybr beiciau newydd, ar gyfer cerddwyr a beicwyr, a rennir â llwybr gerbydau â mynediad preifat, sy'n rhedeg o bwynt terfyn gogledd-orllewinol ffordd gyswllt y ffordd a ddisgrifir yn (4) uchod, yn ymestyn tua'r de-ddwyrain ac yna'n gyffredinol

tua'r de-orllewin mewn cysylltiad â Factory Road, ac a fydd yn cysylltu â llwybr beicio integrol yr A494(T) a grybwyllir yn (5) uchod;

(8) gwella llwybr anffurfiol i gerddwyr, beicwyr a dulliau preifat o fynediad i gerbydau rhwng Llwybr Arfordir Cymru/NCN 568 a Claremont Avenue.

(9) llwybr troed newydd yn rhedeg rhwng ffin priffordd yr A494(T) a chyffordd Chemistry Lane/Factory Road i'r de-orllewin o Lwybr Troed 15 (Gorllewin Saltney) sydd i'w chau, ac ar hyd ffin gogledd-ddwyreiniol rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru (CNH3);

(10) gyda'i gilydd, bydd y darpariaethau arfaethedig ar gyfer defnyddwyr heblaw modurwyr a ddisgrifir yn (5) i (9) uchod, ynghyd â gwelliannau i gysylltiadau presennol, yn darparu hyd at 3 km o lwybrau cerdded a beicio newydd a gwell. Mae hyn yn cynnwys llwybr cerdded a beicio cyhoeddus rhwng cyffordd Drome Corner i'r gogledd-ddwyrain a Chyfnewidfa Queensferry yn y de-orllewin, gyda chysylltiadau ychwanegol i'r B5441 Station Road a'r ffordd ddiddosbarth Factory Road ac oddi yno. Mae disgwyl i'r gwelliannau hyn wella diogelwch beicwyr, cerddwyr, a defnyddwyr cerbydau'r A494(T) drwy ddarparu mesurau gwahanu clir rhwng cerbydau modur a thraffig defnyddwyr heblaw modurwyr. Efallai y bydd cerbydau cynnal a chadw yn gwneud defnydd bychan ac anaml o rai o'r llwybrau;

(11) gwyro 'Draen Queensferry' (prif afon a ddynodwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru), sydd wedi'i leoli ar ochr de-ddwyreiniol yr A494(T). Ar hyn o bryd, mae'r draen yn llifo drwy gwlfert o dan yr A494(T), i'r gorllewin o Reilfford Arfordir Gogledd Cymru (CNH3), ac mae'n llifo i sianel agored i'r dwyrain o'r rheilffordd. Fel rhan o'r Cynllun, byddai adrannau newydd o sianel agored yn cael eu hadeiladu ar ochr de-ddwyreiniol yr A494(T) ar ôl ei lledu, bob ochr i Reilfordd Arfordir Gogledd Cymru. Bydd y cwlfert presennol o dan y rheilffordd yn cael ei gadw a'i ategu gyda adrannau newydd o gwlfert i gysylltu'r sianeli agored. Byddai seilwaith draenio ychwanegol hefyd yn cael ei ddarparu yng nghoridor y gefnffordd sydd wedi'i ledu i gefnogi gofynion draenio cyffredinol y Cynllun;

(12) bydd llifddor newydd yn cael ei chreu ar yr Afon Dyfrdwy, a bydd cyfleuster Gorsaf Bwmpio newydd ar gyfer Queensferry yn cael ei ddarparu, i'r de-orllewin o Afon Dyfrdwy ac i'r gogledd-orllewin i bwynt terfynu'r ffordd gyswllt newydd i'r briffordd sy'n cysylltu ag ardal Riverside fel y disgrifir yn (4) uchod;

(13) dymchwel Pont Afon Dyfrdwy bresennol yr A494, ac eithrio pileri'r afon, a fydd yn aros yn y fan a'r lle.

(14) bydd gwaith lliniaru amgylcheddol lleol, o ganlyniad i'r Cynllun, yn cael ei ddarparu:

i. i'r gogledd-ddwyrain o ffordd ddiddosbarth Chester Road East ar ei bwynt terfynu newydd yn y gogledd-orllewin, lle mae coed aeddfed yng ngardd gefn 1 Bridge Houses (a fydd yn cael eu dymchwel) yn cael eu cadw er mwyn osgoi colli cynefin a rhoi cysgod i strwythurau clwydo ystlumod arfaethedig yn erbyn golau artiffisial.

ii. ar ffurf gwrychoedd newydd sy'n cysylltu cynefinoedd presennol i'r de-ddwyrain o'r Draen Queensferry newydd (Sianel Agored), oddi ar ffordd ddiddosbarth Chester Road East, ynghyd â rhagor o ardaloedd o ystâd feddal ychydig i'r de-orllewin o Reilffordd Arfordir Gogledd Cymru (CNH3) ym mhen gogledd-ddwyreiniol y ffordd fynediad newydd ar gyfer gwaith cynnal a chadw'r Sianel.

iii. ar ffurf gwrychoedd newydd, sy'n cysylltu cynefinoedd presennol, i'w darparu i'r de-ddwyrain o Ddraen Queensferry yn ei lleoliad newydd (Sianel Agored), ar ffin gogledd-orllewinol Gwaith Trin Carthion Queensferry Dŵr Cymru, ynghyd â rhagor o ardaloedd o ystâd feddal ychydig i'r gogledd-ddwyrain o Reilffordd Arfordir Gogledd Cymru (CNH3) ym mhen de-orllewinol y ffordd fynediad newydd ar gyfer gwaith cynnal a chadw'r Sianel.

iv. ar ffurf gwrychoedd newydd sy'n cysylltu cynefinoedd presennol i'r de-orllewin o Ferrybank Farm ac i'r de-ddwyrain o lwybr beicio'r gefnffordd sy'n cysylltu Llwybr Arfordir Cymru/NCN 568 â Foxes Lane.

v. drwy osod a monitro blychau ystlumod ger Cyfnewidfa Queensferry, i'r de o'r A494(T) ac i'r gogledd-ddwyrain o'r B5129 Chester Road East, yn darparu cyfleoedd clwydo a gwell cysylltedd rhwng cynefinoedd sy'n bodoli eisoes.

vi. drwy adeiladu clwydfan ystlumod bwrpasol a monitro ar dir i'r de-orllewin o Afon Dyfrdwy, wrth ymyl yr orsaf bwmpio arfaethedig a ger pen deheuol y Cynllun, gan gyfrannu at ddarpariaeth cynefin tymor hir a chyfleoedd rhywogaethau ar gyfer bioamrywiaeth.

Bydd y mesurau lliniaru hyn yn darparu cynefin ffawna parhaol a seilwaith gwyrdd a fydd yn integreiddio'r Cynllun mewn modd mwy sensitif o fewn yr amgylchedd ehangach;

(15) Byddai'r Cynllun yn golygu dymchwel pedwar eiddo, Rhifau 1 - 4 Bridge Houses, y mae tri ohonynt (Rhifau 2 - 4) yn eiddo i Weinidogion Cymru, ac un (Rhif 1) yn eiddo i Gyngor Sir y Fflint. Mae pob eiddo yn wag;

(16) y safleoedd busnes a fyddai'n cael eu colli o dan y Cynllun yw - T K Motor Repairs, yn Uned 1, wedi'i leoli ar ochr orllewinol ffordd ddiddosbarth Chester Road East; a eiddo J & M Garner (Haulage) Limited, i'r de-ddwyrain o'r A494(T) ac ar lan de-orllewin Afon Dyfrdwy;

(17) bydd y briffordd, a'r ffordd fynediad breifat, a elwir yn By Pass Road, yn syth oddi ar ochr de-ddwyrain yr A494(T) yn gwasanaethu buddiannau tir eraill, gan gynnwys Riverside Joinery a Chaloner Auto Repairs Ltd, ar lan de-orllewinol Afon Dyfrdwy, a Safle Sipsiwn a Theithwyr Riverside, yn ogystal â'r safleoedd Gorsaf Bwmpio Queensferry a Llifddor Afon Dyfrdwy yn cael ei diddymu gan y Cynllun, a'i disodli â chyffordd newydd â blaenoriaeth a ffordd gyswllt fel y disgrifir yn (3) a (4) uchod;

(18) cynigir gwaith lliniaru amgylcheddol oddi ar y safle ar gyfer ardal blaendraeth Cors Maes Glas, ger Walwen. Mae'r safle hwn i'r gogledd-ddwyrain o Ganolfan Ailgylchu Maes-glas a Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru (CNH 3), ac i'r de orllewin o Aber Afon Dyfrdwy oddi ar Arglawdd Bagillt, yng Nghymuned Treffynnon. Bydd y gwaith yn cynnwys cael gwared ar batsys rwbel, olion tebygol hen safle tirlenwi. Bydd yr ardal yn cael ei chynnal a'i monitro i gefnogi'r broses naturiol o gytrefu cynefin morfa heli. Os bydd amodau amgylcheddol yn newid, bydd cyfoethogi â llaw wedi'i dargedu yn digwydd i gynnal rhywogaethau morfa heli allweddol. Bydd cynllun rheoli a monitro amgylcheddol pwrpasol yn cael ei roi ar waith yn ystod y cam cyn adeiladu, gydag asesiadau monitro ecolegol parhaus am bum mlynedd ar ôl y gwaith adeiladu, i olrhain datblygiad cynefinoedd a sicrhau llwyddiant o ran adfer cynefinoedd yn y tymor hir.

Y GORCHMYNION

Cefndir

10. Cyhoeddwyd Gorchymyn Llinell a Phont drafft a Gorchymyn Ffyrdd Ymyl drafft ar 30 Medi 2025, a chyhoeddwyd Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft ar 15 Hydref 2025. Petai'r Gorchmynion drafft hyn yn cael eu gwneud, byddent yn awdurdodi: adeiladu pont newydd dros Afon Dyfrdwy; adeiladu priffyrdd newydd; cau a gwella priffyrdd; cau a darparu mynedfeydd preifat, caffael tir a hawliau sy'n angenrheidiol ar gyfer adeiladu a chynnal a chadw'r bont newydd a'r gefnffordd newydd yn y dyfodol, gwaith ffyrdd ymyl cysylltiedig â gwaith ategol a gweithredu mesurau i liniaru'r effaith ar yr amgylchedd lleol.

Y DATGANIAD AMGYLCHEDDOL

Ymgynghoriad

11. Cyhoeddwyd y Datganiad Amgylcheddol ar 30 Medi 2025 yn unol â Rhan VA o Ddeddf Priffyrdd 1980 a Chyfarwyddeb 2011/92/EU (fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2014/52/EU). Cyhoeddwyd Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol a oedd yn asesu goblygiadau'r Cynllun i'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a materion cysylltiedig hefyd ar 30 Medi 2025 yn unol â Rheoliad 63 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) (a elwir yn 'Reoliadau Cynefinoedd').

12. Yn unol ag Adran 105B o Ddeddf Priffyrdd 1980 a Rheoliad 63 o'r Rheoliadau Cynefinoedd, gosodwyd Hysbysiadau Cyhoeddus yn y London Gazette a'r Daily Post ar 30 Medi 2025 ac fe'u hanfonwyd, ynghyd â Chrynodeb Annhechnegol y Datganiad Amgylcheddol, at y rhestr o dderbynwyr statudol ac anstatudol yn Atodiad A, gan wahodd sylwadau erbyn 11 Tachwedd 2025.

LLEOLIADAU ADNEUO

13. Roedd copïau o'r Gorchmynion drafft (Gorchymyn Llinell a Phont, Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a Gorchymyn Prynu Gorfodol), y Datganiad Amgylcheddol, y Crynodeb Annhechnegol a'r Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol ar gael i'w harchwilio yn y lleoliadau canlynol:

i. Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, LL31 9RZ;
ii. Llyfrgell Glannau Dyfrdwy, Chester Road West, Queensferry, CH5 1SA

GWYBODAETH AR-LEIN

14. Roedd copïau o'r Datganiad Amgylcheddol, y Crynodeb Annhechnegol a'r Datganiad Effaith Statudol a'r Gorchmynion drafft (Gorchymyn Llinell a Phont, Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a Gorchymyn Prynu Gorfodol) hefyd ar gael ar-lein ar dudalen ymgynghoriad y Cynllun ar wefan Llywodraeth Cymru a ddiweddarwyd ar ddyddiad cyhoeddi'r Gorchmynion drafft. Gallai ymatebwyr weld copïau o holl ddogfennau'r Gorchmynion drafft a fersiynau electronig o'r byrddau arddangos a ddangoswyd yn y digwyddiadau arddangos cyhoeddus. Mae modd cael gafael ar yr holl ddeunyddiau o hyd yn www.llyw.cymru/a494-pont-afon-dyfrdwy .

DIGWYDDIADAU ARDDANGOS

15. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad arddangos ar gyfer rhanddeiliaid ac aelodau'r cyhoedd. Daeth 41 o ymwelwyr i'r ddau ddigwyddiad. Cafodd y Gorchymyn Llinell a Phont drafft, y Gorchymyn Prynu Gorfodol a'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl drafft, ynghyd â Chynlluniau Cyfeirio Tir drafft, eu harddangos ar fyrddau arddangos yn ystod yr arddangosfeydd er mwyn i'r rheini a oedd yn bresennol allu adolygu a thrafod eu pryderon â thîm prosiect Llywodraeth Cymru. Dangoswyd prif luniad y Cynllun ynghyd â'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl, y Gorchymyn Prynu Gorfodol, y Gorchymyn Llinell a Phont a'r Prif Gynlluniau Amgylcheddol drafft a gyhoeddwyd. Cafodd copi llawn o'r Datganiad Amgylcheddol a'r Datganiad Effaith Statudol Gorchmynion hefyd eu harddangos ynghyd â fideo delweddu hedfan dros y cynllun.

CYMORTH, GWRTHWYNEBIADAU A SYLWADAU

16. Cafwyd cyfanswm o 24 o ymatebion yn ystod y cyfnod gwrthwynebu 6 wythnos o hyd a oedd yn cynnwys: 6 llythyr o gefnogaeth, 5 gwrthwynebiad statudol, 1 gwrthwynebiad anstatudol a 12 sylw. Ymatebwyd yn unigol i bob llythyr yn mynegi gwrthwynebiad ac yn cyflwyno sylwadau o fewn y cyfnod o 6 wythnos. O'r 5 gwrthwynebiad statudol, mae 3 wedi cael eu tynnu'n ôl ers hynny, gan adael 2 wrthwynebiad statudol ac un gwrthwynebiad anstatudol yn cynnwys iawndal heb ei dalu.

CYMORTH

17. Rhoddir crynodeb isod o'r llythyrau'n cefnogi'r Cynllun ac ymatebion Llywodraeth Cymru (a ddangosir mewn llythrennau italig).

18. Cyngor Tref Treffynnon

    Mynegodd y Cyngor eu cefnogaeth lawn i'r cynllun yn enwedig y gwaith sy'n benodol o ddiddordeb iddynt.

    - *Diolchodd Llywodraeth Cymru i'r Cyngor am ei gefnogaeth.*

19. Cyngor Sir y Fflint

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cefnogi'r Cynllun arfaethedig yn gyffredinol ond gofynnodd i'r pwyntiau canlynol gael eu hystyried a derbyn sylw:

- Mae'r Cyngor yn croesawu'r llain galed newydd rhwng y groesffordd rhwng Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru a Foxes Lane gan y bydd yn darparu cadernid ychwanegol i'r rhwydwaith. Maent hefyd yn falch o weld y bydd cyn lleied â phosibl o waith yn cael ei wneud ar y rheilffordd.

    - *Nododd a chroesawodd Llywodraeth Cymru sylwadau cadarnhaol Cyngor Sir y Fflint ynghylch cynnwys lleiniau caled a'r gwaith cyfyngedig sydd ei angen ar y rheilffordd.*

- Mae'r Cyngor yn nodi y bydd cyffordd T newydd (i mewn ac allan ar y chwith yn unig) i'r de o'r afon yn cysylltu ardal Riverside â'r A494 ar ffurf debyg i'r gyffordd bresennol. Maent wedi mynegi pryderon o'r blaen y bydd cyffordd T yn uniongyrchol ar yr A494 yn golygu bod yn rhaid i draffig ymuno â'r A494 o safle segur a'r risg y bydd traffig yn troi i'r dde yn hytrach nag i'r chwith. Maent hefyd yn dal yn bryderus nad yw'r cynlluniau arfaethedig bellach yn cynnwys y ffordd sy'n cysylltu safle'r Sipsiwn â Factory Road. Gofynnodd y Cyngor i archwiliad diogelwch gael ei gynnal o'r gyffordd newydd i Riverside, ac maent yn deall bod hyn wedi cael ei wneud, a gofynnwyd a fyddai modd rhannu canfyddiadau'r archwiliad a'r adroddiad â nhw.

    - *Nododd Llywodraeth Cymru bryderon Cyngor Sir y Fflint ynghylch cyffordd Riverside a chadarnhaodd fod Archwiliad Diogelwch ar y Ffyrdd Cam 1 wedi'i gynnal, gyda rhagor o archwiliadau ar y gweill wrth i'r gwaith dylunio fynd rhagddo. Mae Llywodraeth Cymru yn trefnu i rannu canfyddiadau'r archwiliadau sydd wedi'u cwblhau hyd yma â Chyngor Sir y Fflint.*

    - *Cynlluniwyd y gyffordd yn unol â'r safonau cenedlaethol ac mae wedi cael ei haddasu i adlewyrchu sylwadau blaenorol gan Gyngor Sir y Fflint. Mae'r diwygiadau'n cynnwys cynyddu hyd y slipffordd, ymestyn y gerbytffordd oddi ar gyffordd yr A494, ac adleoli'r groesfan gerdded, olwyno a beicio ymhellach i ffwrdd o'r A494 er mwyn gwella diogelwch.*

    - *O ran y cysylltiad â Factory Road, ni chafodd hyn ei gynnwys oherwydd nifer o gyfyngiadau: dim digon o gapasiti draenio yn system bresennol Factory Road, yr effaith ar goed sy'n cael eu gwarchod gan Orchmynion Cadw Coed (cododd Swyddog Coed Cyngor Sir y Fflint bryderon yn eu cylch), bodolaeth nifer o gyfleustodau yn y cyffiniau, a'r heriau gweithredol o gyfeirio cerbydau naill ai drwy'r bont reilffordd isel i Chemistry Lane neu drwy ddargyfeiriad hirach ar hyd Factory Road.*

- Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod nad oes modd osgoi cyflwyno mesurau rheoli traffig gwrthlif (newid fesul cyfnod) wrth gysylltu'r bont newydd (a fydd yn cael ei hadeiladu oddi ar y ffordd) â'r strwythur presennol. Fodd bynnag, maent yn bryderus, er bod hyn wedi cael ei godi yn y digwyddiad ymgynghori, bod angen egluro hyd y cam hwn, gan y bydd hyn yn lleihau traffig i un lôn i bob cyfeiriad mewn lleoliad sydd

eisoes â thagfeydd, ac mae'n debygol o darfu'n fawr ar yr A494 a'r rhwydwaith ffyrdd cyfagos drwy gydol y cynllun.

- *Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y tarfu posibl yn ystod y cam gwrthlif pan fydd y bont newydd yn cael ei chysylltu â'r strwythur presennol. Bydd hyd a mesurau lliniaru yn cael eu cadarnhau ar ôl penodi Contractwr, a disgwylir y bydd hyn yn digwydd yn ystod yr haf / hydref hwn, a bydd y rhain yn cael eu cyfleu i randdeiliaid. Bydd cynlluniau rheoli traffig cynhwysfawr yn cael eu datblygu i leihau tagfeydd a chynnal diogelwch drwy gydol y cyfnod hwn.*

- *Yn ystod y cyfnod adeiladu, bydd Cyfarfodydd Grŵp Cyswllt Traffig misol yn cael eu trefnu a'u cadeirio gan y Contractwr. Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cael eu gwahodd i'r holl gyfarfodydd hyn, a fydd yn darparu fforwm i Lywodraeth Cymru a'r Contractwr roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gyngor Sir y Fflint a rhanddeiliaid eraill ac i roi adborth.*

- Mynegodd cynghorwyr Sir y Fflint bryderon ynghylch diffyg trydedd lôn fel yr hyrwyddwyd o'r blaen. Eglurwyd yn ystod y digwyddiad ymgynghori bod hyn o ganlyniad i Adolygiad Ffyrdd Llywodraeth Cymru. O ystyried yr ymrwymiad a wnaed i ailedrych ar yr Adolygiad Ffyrdd a chydnabod cerbydau trydan fel dull cynaliadwy o deithio, mae angen eglurhad ar sut mae'r ymgymeriad hwn yn effeithio ar y cynnig o ddwy lôn yn hytrach na thair. Mae cadernid y rhwydwaith yn ystod cyfnodau o darfu oherwydd gwrthdrawiadau neu dorri i lawr ar y ffyrdd, a hefyd ansawdd aer, yn dal yn bryder i aelodau etholedig ar y rhan hon o'r A494.

  - *Mae Llywodraeth Cymru yn nodi pryderon y cynghorwyr ynghylch capasiti arfaethedig y cynllun o ran lonydd. Mae'r prif angen am Gynllun Adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494 yn deillio o'r ffaith bod y bont bresennol yn nesáu at ddiwedd ei hoes weithredol. Yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Ffyrdd ym mis Chwefror 2023, adolygwyd Amcanion Cynllunio Trafnidiaeth y Cynllun fel eu bod yn cyd-fynd â'r pedwar prawf adeiladu ffyrdd. O ganlyniad, cafodd y Cynllun wedyn ei ail-werthuso gan ddefnyddio'r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) diweddaraf.*

  - *Canfuwyd bod opsiynau dwy lôn yn cyd-fynd yn well â'r polisi cyfredol. Mae'r opsiwn a ffafrir yn cynnig gwell gwerth am arian a chadernid rhwydwaith, ar yr un pryd â lleihau effeithiau amgylcheddol ac adeiladu.*

  - *Mae'r cynllun arfaethedig yn cynnwys cyfleusterau llain galed ar y ddwy lôn gerbydau newydd. Bydd y rhain yn gwella diogelwch i ddefnyddwyr ffyrdd a staff cynnal a chadw ac yn helpu i leihau effaith digwyddiadau neu ddamweiniau ar draffig. Bydd strwythur newydd y bont yn cael ei ddylunio i ganiatáu troi'r lleiniau caled yn lonydd agored yn y dyfodol pe bai'r angen yn codi.*

  - *Wrth edrych i'r dyfodol, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru, gan gynnwys Cyngor Sir y Fflint, drwy gynnal adolygiad o anghenion trafnidiaeth a chadernid ar yr A55 a'r A494 a fydd yn ystyried diogelwch, tagfeydd, cysylltedd, cadernid, hygyrchedd, perfformiad gweithredol, a chefnogi twf economaidd. Fel rhan o'r dull gweithredu hwn ar draws y rhwydwaith, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu Rhwydwaith*

Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ

Gogledd Cymru, sy'n ceisio gwella cysylltedd rhanbarthol ar y rheilffyrdd, bysiau ac wrth gerdded a beicio. Bydd y fenter hon yn cefnogi dewisiadau teithio amgen ac yn helpu i leihau tagfeydd ar y ffyrdd. Er enghraifft, mae'r cynigion yn cynnwys gorsaf drenau newydd ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy a gwell gwasanaethau bysiau i wella mynediad at swyddi yn yr ardal.

- Mae Prif Swyddog Cynllunio, Amgylchedd ac Economi'r Cyngor eisoes wedi gwneud sylwadau ar yr opsiynau a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad, o safbwynt Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig y Cyngor sy'n cwmpasu'r cyfnod 2015 i 2030. Mae'r CDLl yn cynnwys dyraniad ym mholisi HN8.3 ar gyfer estyniad i Safle Sipsiwn presennol Riverside sy'n cael ei redeg gan y Cyngor i ddarparu 10 llain ychwanegol. Nododd y Cyngor bod y dyraniad y tu allan i ffin y safle ar bob cynllun. Fe wnaethant nodi hefyd nad yw'r holl opsiynau a gyflwynwyd bellach yn dangos mynediad i gerbydau i Factory Road, gyda hyn bellach yn cael ei ddangos fel 'Cysylltiad llwybr cyd-ddefnyddio newydd â Factory Road'. Mae'n ymddangos bod hyn yn awgrymu y bydd y fynedfa i gerbydau i safle presennol y sipsiwn a'r estyniad arfaethedig yn cael ei gynnal o'r A494 yn ystod y gwaith adeiladu. Y pryder yw bod yr holl opsiynau'n dangos tri chompownd / ardal waith adeiladu dros dro. Mae'r compownd canolog yn cydffinio'n uniongyrchol â'r safle Sipsiwn presennol a'r estyniad arfaethedig. Mae wedi'i leoli ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor ac mae wedi'i glustnodi ar gyfer creu basn arafu dŵr llifogydd mewn cysylltiad â'r estyniad arfaethedig i safle'r Sipsiwn. Felly, mae'r Cyngor wedi gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried goblygiadau defnyddio'r tir hwn fel compownd adeiladu, a'r amserlenni ar gyfer hynny, o ran gallu'r Cyngor i ymestyn safle'r Sipsiwn.

    - *Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod dyraniad y Cynllun Datblygu Lleol a phryderon Cyngor Sir y Fflint ynghylch defnyddio tir ar gyfer compowndiau adeiladu wrth ymyl Safle Sipsiwn presennol ac arfaethedig Riverside. Mae tîm y prosiect wedi bod yn cysylltu â swyddogion Cyngor Sir y Fflint drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r Cynllun i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â chynlluniau Cyngor Sir y Fflint.*

    - *Mae Llywodraeth Cymru yn deall na ellir bwrw ymlaen â'r estyniad i safle Sipsiwn a Theithwyr y Cyngor gyda threfniant presennol y gyffordd â'r A494. Felly, dealltwriaeth Llywodraeth Cymru yw bod Cyngor Sir y Fflint yn bwriadu aros am ganiatâd ar gyfer cynllun yr A494 ac, os rhoddir caniatâd, cwblhau'r bont a'r gwaith ar y gyffordd newydd cyn bwrw ymlaen â'i Gynllun ei hun.*

    - *Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda swyddogion Cyngor Sir y Fflint i reoli defnydd tir ac amserlenni er mwyn lleihau'r effeithiau ar yr estyniad arfaethedig a'r gwaith cysylltiedig i arafu llifogydd.*

- Nododd Cyngor Sir y Fflint fod Trefniant Cyffredinol Cynllun Arfaethedig Adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy yr A494 dyddiedig Medi 2025 yn cynnwys tir ac eiddo sydd ar hyn o bryd yn eiddo i Gyngor Sir y Fflint a byddent yn disgwyl cael iawndal yn unol â hynny os bydd y tir a'r eiddo hwn yn cael eu cynnwys yn y cynllun. Ar ben hynny, nododd Cyngor Sir y Fflint fod rhai hawliau tramwy cyhoeddus hefyd yn croestorri â'r cynllun, a byddent yn disgwyl i'r rhain gael eu cadw.

Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ

- *Nododd Llywodraeth Cymru sylwadau Cyngor Sir y Fflint ynghylch tir ac eiddo sy'n eiddo i Gyngor Sir y Fflint a hawliau tramwy cyhoeddus. Nodwyd gofynion tir ac eiddo yn y Gorchmynion drafft, a bydd iawndal yn cael ei ddarparu yn unol â phrosesau statudol. Rhoddir manylion hefyd yn y Gorchmynion drafft am unrhyw effeithiau ar hawliau tramwy cyhoeddus sy'n croestorri â'r Cynllun, a bydd y rhain yn cael eu cadw neu eu dargyfeirio'n briodol mewn ymgynghoriad â'r Cyngor.*

- Mae Cyngor Sir y Fflint yn dal yn bryderus y bydd y cyfrifoldeb dros rai o'r llwybrau teithio llesol yn trosglwyddo i'r awdurdod lleol i'w cynnal a'u rheoli yn y dyfodol heb gyllideb ychwanegol, ac ar adeg pan fo cyllidebau eisoes yn gyfyngedig. I'r perwyl hwn, mae angen ystyried darparu cyllid refeniw ychwanegol ar gyfer cynnal a rheoli'r llwybrau teithio llesol hyn.

  - *Nododd Llywodraeth Cymru bryderon Cyngor Sir y Fflint ynghylch cynnal a chadw a rheoli rhai o'r llwybrau teithio llesol arfaethedig yn y dyfodol. Mae'r llwybrau teithio llesol sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun yn adlewyrchu adrannau sydd wedi'u nodi i'w datblygu gan Gyngor Sir y Fflint yn ei Fapiau Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r llwybrau newydd hyn, a ddylai helpu i ryddhau adnoddau Cyngor Sir y Fflint i fwrw ymlaen â gwelliannau pellach a nodwyd yn eich cynlluniau ehangach ar gyfer yr ardal.*

  - *Ar ben hynny, bydd tîm y prosiect yn gweithio'n agos gyda Chyngor Sir y Fflint i sicrhau bod dyluniad ac adeiladwaith y llwybrau newydd yn lleihau'r gofynion cynnal a chadw yn y dyfodol cymaint ag y bo modd.*

20. David Rawlinson

    Mae Mr Rawlinson yn Beiriannydd Sifil Siartredig sy'n byw'n lleol, ac yn gryf o blaid y prosiect. Gwnaeth y sylwadau canlynol ac yn dilyn hynny cadarnhaodd fod ymateb Llywodraeth Cymru yn rhoi sylw i'w sylwadau.

- Lluniadau Ymgynghori Gwael: Nid yw lluniadau'r Gorchmynion drafft presennol yn ddigon clir, sy'n ei gwneud yn anodd i'r cyhoedd roi adborth.

  - *Mae'r lluniadau a ddarparwyd yn gynlluniau statudol sydd eu hangen er mwyn ymgynghori ar Orchmynion Ffyrdd drafft a Gorchmynion Prynu Gorfodol. Maent yn bodloni gofynion deddfwriaethol ac yn diffinio tir a hawliau ar gyfer y cynllun. Mae cyd-destun ychwanegol ar gael drwy luniadau Trefniant Cyffredinol a Phrif Gynlluniau Amgylcheddol ar wefan y prosiect. Mae'r cynllun yn y cam dylunio rhagarweiniol a bydd yn cael ei ddatblygu ymhellach.*

- Anghenraid y Cynllun: Yn llwyr gefnogi'r angen strwythurol a'r nodau cynaliadwyedd.

  - *Roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod cefnogaeth i amcanion y cynllun, gan gynnwys rheidrwydd strwythurol, hyrwyddo teithio llesol, a chynaliadwyedd. Bydd adborth yn cael ei gofnodi fel rhan o'r ymgynghoriad.*

- Capasiti'r Lonydd: Yn credu bod dwy lôn bob ffordd yn dangos diffyg gweledigaeth; yn argymell diogelu lonydd ychwanegol i fynd i'r afael â thagfeydd traffig a llygredd.

- *Dewiswyd opsiynau dwy lôn ar ôl alinio polisi â'r Adolygiad Ffyrdd ac arfarniad o'r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru. Mae'r opsiwn hwn yn cynnig gwell gwerth am arian, cadernid, a llai o effaith ar yr amgylchedd. Bydd lleiniau caled yn cael eu cynnwys ar gyfer diogelwch a hyblygrwydd yn y dyfodol (trosi i fod yn lonydd agored os oes angen). Mae astudiaeth o wytnwch ac anghenion trafnidiaeth ar draws y coridor hefyd ar y gweill.*

- Paratoi at y dyfodol: Yn awgrymu o leiaf un lôn ychwanegol tua'r gorllewin ac, yn ddelfrydol, tair lôn i'r ddau gyfeiriad.

  - *Mae'r rhesymeg dros gael dwy lôn yn parhau i gyd-fynd â pholisi a chanlyniadau'r arfarniad, gan ddiogelu at y dyfodol drwy drawsnewid y lleiniau caled.*

- Seilwaith beicio: Yn cefnogi teithio llesol ond yn teimlo bod buddsoddiad gormodol mewn lonydd beiciau ar bontydd; yn cynnig ailddyrannu gofod ar gyfer capasiti ffyrdd a gwella llwybrau beicio ar lan orllewinol yr afon.

  - *Bydd llwybr cyd-ddefnyddio pwrpasol yn cael ei ddarparu, gan wella cysylltedd i gerddwyr a beicwyr a chefnogi newid dulliau teithio. Dyma fydd y groesfan gyntaf o'i bath yn Queensferry.*

- Pryderon Diogelwch: Yn gwrthwynebu llwybrau beicio yn gyfagos i gerbytffyrdd o dan bont Network Rail.

  - *Bydd llwybrau teithio llesol yn cydymffurfio â chanllawiau dylunio Llywodraeth Cymru, gydag archwiliadau diogelwch a, lle bo angen, yn gwyro oddi wrth safonau dylunio teithio llesol gyda chymeradwyaeth yr Awdurdod Cymeradwyo Technegol.*

- Ailddefnyddio Strwythurau Presennol: Yn cwestiynu'r angen i ddymchwel; yn awgrymu ailbwrpasu ar gyfer mannau cyhoeddus neu lwybrau beicio (e.e., tebyg i High Line Efrog Newydd).

  - *Nid yw'n ymarferol cadw'r hen bont oherwydd diffygion strwythurol a achoswyd gan fethiant gwrth-ddŵr hanesyddol.*

- Gwerth Cymdeithasol: Yn annog ymgysylltu cryf ag ysgolion a busnesau lleol.

  - *Bydd ymrwymiad i fanteision cymunedol, gwaith teg a llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.*

- Methodoleg Adeiladu: Argymell defnyddio doc Airbus A380 ar gyfer rhannau o'r bont sy'n arnofio.

  - *Ystyriwyd Cyfleuster Dadlwytho Airbus ond nid yw'n ymarferol ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau, ond mae trafodaethau'n parhau ar agor â'r contractwr.*

- Mater amgylcheddol: Mae'n awgrymu mynd i'r afael â'r "Arogl Drwg Glannau Dyfrdwy" yn ystod gwelliannau draenio.

- *Nid oes unrhyw faterion penodol wedi'u nodi, ond gallai Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Queensferry fod yn ffynhonnell.*

- Cynllunio Strategol: Galwadau am eglurder ynghylch buddsoddiadau tymor hir cysylltiedig (Llwybr Coch, Lonydd Allt Aston, Cyfnewidfa Queensferry) i sicrhau'r gwerth gorau.

    - *Gwerthuswyd y cynllun o dan yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru, gan ystyried ffactorau strategol, economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a rheoli. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru'n cynnal Adolygiad o Anghenion a Chadernid Trafnidiaeth ar yr A55 a'r A494 ac mae'n parhau â dull gweithredu ar draws y rhwydwaith drwy fentrau fel Network North Wales.*

21. Betts Associates

Mae Betts Associates yn Beirianwyr Sifil a Strwythurol Ymgynghorol lleol sydd wedi mynegi cefnogaeth i'r cynllun arfaethedig. Codwyd y pwyntiau canlynol ganddynt ac, yn dilyn hynny, fe wnaethant gadarnhau bod ymateb Llywodraeth Cymru wedi mynd i'r afael â'u pryderon.

- Pryder ynghylch amseru a chydlynu'r gwaith o adeiladu'r bont newydd gyda'r rhwydwaith ffyrdd presennol, gan fod ganddynt dros 20 aelod o staff sy'n cymudo ar draws y bont ac sydd eisiau osgoi tarfu ar deithio.

    - *Roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod pryderon am darfu posibl ar gymudo staff yn ystod y gwaith adeiladu. Mae tarfu cyn lleied â phosibl yn flaenoriaeth allweddol, a bydd cysylltedd yn cael ei gynnal drwy gydol y prosiect.*

    - *Bydd rhaglen adeiladu fanwl yn cael ei datblygu gyda'r contractwr a benodir, gan gynnwys strategaethau rheoli traffig i leihau tarfu. Bydd Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd penodol yn sicrhau cyfathrebu rheolaidd â rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod adeiladu.*

22. Un o drigolion Sealand

Ysgrifennodd un o'r trigolion lleol i gefnogi'r Cynllun a thynnodd sylw at y pwyntiau canlynol:

- Llwybrau troed ychwanegol a gwell cysylltiadau yn ardal Riverside / Queensferry.

- Yn rhagweld y byddai cyfleoedd rhwydweithio a swyddi lleol yn cael eu creu yn ystod y cyfnod adeiladu.

    - *Ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy ddiolch i'r ymatebydd am eu cefnogaeth a nododd y sylwadau cadarnhaol ynghylch y llwybrau troed ychwanegol a'r cysylltiadau gwell yn ardal Riverside a Queensferry. Roedd yr ymateb hefyd yn nodi bod gwella cyfleoedd teithio llesol yn un o amcanion allweddol y Cynllun ac roedd yn croesawu'r gydnabyddiaeth o'r potensial ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth a rhwydweithio lleol yn ystod y gwaith adeiladu. Nododd Llywodraeth Cymru hefyd*

ei hymrwymiad i sicrhau'r manteision cymunedol gorau posibl drwy gyflawni'r Cynllun.

23. Un o drigolion Welsh Road

Ysgrifennodd un o drigolion Welsh Road i gefnogi'r cynllun a gwnaeth y sylwadau canlynol:

- Roedd yn gwerthfawrogi'r digwyddiad ymgysylltu â'r cyhoedd yng nghanolfan gymunedol Eglwys Sant Andreas.

- Cydnabyddiaeth gadarnhaol o ymdrechion i gynnwys y gymuned.

    - *Ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy ddiolch i'r preswylydd am eu cefnogaeth ac am roi o'u hamser i ddod i'r arddangosfa a chroesawyd eu cefnogaeth i'r dyluniad arfaethedig a nodwyd eu sylwadau cadarnhaol ynghylch gwerth ymgysylltu â chymunedau lleol.*

GWRTHWYNEBIADAU STATUDOL

24. Rhoddir crynodeb isod o'r llythyrau'n gwrthwynebu'r Gorchmynion Drafft ac ymatebion ffurfiol Llywodraeth Cymru (a ddangosir mewn llythrennau italig).

25. Lindop Toyota Queensferry

Roedd Lindop Toyota yn gwrthwynebu'r Gorchmynion drafft ar y seiliau canlynol:

- Byddai'r bwriad i gaffael tir ar y safle yn effeithio'n ddifrifol ar weithrediad y busnes drwy gyfyngu ar fynediad i ardaloedd gweithdai, lleihau nifer y cerbydau y gellir eu gwasanaethu, eu hatgyweirio a'u glanhau, ac amharu ar gylchrediad unffordd presennol cerbydau o amgylch y safle. Dywedwyd y byddai gan hyn oblygiadau diogelwch i staff a chwsmeriaid ac y gallai leihau gweithgarwch gweithredol o tua 30%, a chael effeithiau ar gyflogaeth yn sgil hynny.

    - *Roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pryderon ynghylch effeithiau gweithredol a chylchrediad y safle. Cyn cyhoeddi'r Gorchmynion drafft, cafodd y cynigion ar gyfer llwybr cyd-ddefnyddio eu diwygio i leihau'r effeithiau wrth ymyl ardal y gweithdy, gan gynnwys lleihau lled y llwybr o 3.0 m i 2.5m a'r llain ymyl o 1.0 m i 0.5 m dros hyd o tua 30m. Roedd hyn yn osgoi effeithiau ar fannau parcio'r gweithdy.*

    - *Yn dilyn trafodaethau pellach gyda Lindop Toyota yn ystod ac ar ôl y cyfnod gwrthwynebu statudol, cafodd hyd y llwybr cyd-ddefnyddio 2.5m o led gyda llain ymyl 0.5m ei ymestyn o tua 30m i 45 m. Ar ben hynny, cafodd lled y llain ymyl ar hyd gweddill y llwybr wrth ymyl ffin Toyota Lindop, sy'n ymestyn tuag at Station Road, ei leihau o 1.0 m i 0.5 m. Roedd y diwygiadau hyn yn osgoi colli tri man parcio gwerthu/arddangos a chynnal cylchrediad cerbydau o fewn y safle, fel nad oes mannau parcio parhaol yn cael eu colli o ganlyniad i'r gwaith.*

- *Bydd rhan fer o'r wal gynnal bresennol o friciau lle mae craciau i'w gweld, o ganlyniad i fonyn coeden cyfagos mae'n debyg, yn cael ei hailadeiladu fel rhan o'r cynllun ar aliniad newydd. Ni fydd unrhyw leoedd parcio parhaol yn cael eu colli ar ôl iddo gael ei ailadeiladu.*

- *Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pryderon Lindop Toyota ynghylch tarfu ar eu gweithrediadau yn ystod unrhyw waith ac wedi nodi'r ffenestr waith o'u dewis ac wedi ymrwymo i osgoi eu cyfnodau prysur wrth wneud gwaith ar y rhaglen. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gadarnhau amseriad y gwaith ar ôl penodi contractwr a phan ddaw mwy o wybodaeth am y dull gweithio a manylion y rhaglen.*

- *Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i chwilio gyda Lindop Toyota am safleoedd addas ar gyfer parcio a ddadleolwyd yn ystod y gwaith naill ai drwy ddefnyddio safle Makro gerllaw a/neu dir yn Wilson Auctions fel mesur lliniaru yn ystod y gwaith (neu leoliadau lleol tebyg eraill sydd ar gael yn ystod unrhyw darfu).*

- *Mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio'r trefniadau adeiladu arfaethedig i leihau maint yr ardaloedd gwaith dros dro ar safle Toyota Lindop, gyda mynediad adeiladu'n cael ei gymryd yn bennaf o ochr y llwybr cyd-ddefnyddio yn hytrach na thrwy'r safle gweithredol.*

- Roedd Lindop Toyota yn cwestiynu'r angen am y llwybr beicio arfaethedig gwellaw'r safle, gan nodi mai defnydd ysgafn oedd yn cael ei wneud o'r llwybr presennol, ei fod mewn lleoliad gwael ac y gallai beri risgiau diogelwch drwy ddarparu mynediad i gefn yr eiddo.

    - *Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod darparu llwybr cyd-ddefnyddio gwell yn rhan o amcanion y Cynllun i wella'r ddarpariaeth teithio llesol yn unol â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Rhoddwyd ystyriaeth i opsiynau eraill ond cawsant eu diystyru oherwydd cyfyngiadau peirianneg, amgylcheddol a diogelwch.*

    - *Mae Llywodraeth Cymru wedi ail-alinio'r llwybr cyd-ddefnyddio a'r llain ymyl ffordd ar y gyffordd er mwyn cynnal diogelwch drwy gynyddu pellter arfaethedig y ffens derfyn o'r mannau parcio ar gyfer gwerthu cerbydau. Yn y cefn, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gwneud gwaith plannu ataliol a darparu ffens ddiogel fel mesurau gwrth-fandaliaeth.*

    - *Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi gofynion Lindop Toyota bod y ffens ffin newydd yn ffens ddiogelwch gyda mesurau ychwanegol sy'n gwrthsefyll fandaliaeth lle mae'r llwybr yn rhedeg yn agos at fannau parcio lle na fydd llain glaswellt rhwng y ffens a'r mannau parcio.*

- Awgrymodd Lindop Toyota y dylid edrych ar opsiynau eraill, gan gynnwys defnyddio tir ar ochr arall y llwybr troed presennol a darparu mynediad adeiladu drwy'r ardal ddiwydiannol ar ochr arall Afon Dyfrdwy, yn hytrach na thrwy Station Road neu Welsh Road.

    - *Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod aliniadau amgen a threfniadau mynediad adeiladu wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu'r Cynllun ond na chawsant eu datblygu oherwydd cyfyngiadau'r safle a gofynion ehangach y Cynllun.*

    - *Wrth ddatblygu'r Cynllun adnewyddu pont, ystyriwyd lledu'r llwybr troed cyhoeddus presennol tuag at dir y Fyddin Wrth Gefn. Cafodd ei wrthod oherwydd y byddai wedi bod angen strwythurau cynnal sylweddol arno ac y byddai wedi arwain at golli rhes o goed aeddfed.*

    - *Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i lwybr drwy Barc Busnes Expressway a chafodd ei wrthod oherwydd pryderon diogelwch oherwydd tagfeydd o ran mynediad i barc busnes a meysydd parcio a fyddai'n niweidiol i gyswllt teithio llesol.*

Mae Lindop Toyota wedi cadarnhau'n ysgrifenedig eu bod yn derbyn y cynnig diwygiedig ar gyfer llwybr cyd-ddefnyddio ac mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd ffensys diogelwch a gwaith unioni yn cael eu darparu i safon dderbyniol ac y cytunir arnynt cyn y gwaith.

Mae Lindop Toyota wedi cadarnhau eu bod wedi tynnu eu gwrthwynebiad yn ôl ar sail lled diwygiedig y llwybr cyd-ddefnyddio a'r ddarpariaeth ddiogelwch a'r gwaith unioni fel y nodir mewn cynllun opsiwn llai o led llwybr y mae Llywodraeth Cymru wedi'i anfon atynt.

Mae'r diwygiadau y cytunwyd arnynt i'r llwybr cyd-ddefnyddio a'r gwaith cysylltiedig wedi arwain at ddiwygiadau canlyniadol i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a'r Gorchymyn Prynu Gorfodol, gan gynnwys diwygiadau sy'n effeithio ar dir Lindop Toyota a thir cyfagos nad yw'n hysbys ei berchnogaeth. Disgrifir yr addasiadau hyn ym mharagraffau 44.1, 44.6 a 44.7 isod.

26. J&M Garner (Haulage) Ltd

Mae J&M Garner (Haulage) Ltd wedi gwrthwynebu'r Gorchymyn Prynu Gorfodol arfaethedig ar y seiliau a restrir isod. Mae ymatebion Llywodraeth Cymru yn cynnwys materion sydd wedi'u cadarnhau drwy gyfarfodydd dilynol gyda J&M Garner (Haulage) Ltd a'r Asiant a benodwyd ganddynt.

- Effaith ar Fusnes a'i Weithwyr - Mae'r caffael yn bygwth hyfywedd busnes teuluol hirsefydlog sy'n gweithredu ers dros 50 mlynedd a byddai'n effeithio'n uniongyrchol ar ei weithlu, llawer ohonynt yn weithwyr ers tro byd.

- Heriau Adleoli - Costau sylweddol ac anawsterau logistaidd wrth symud gwasanaeth cludo 24/7, gan gynnwys sicrhau adeiladau addas a throsglwyddo offer trwm.

- *Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gydnabod presenoldeb J&M Garner (Haulage) Ltd ers tro byd a'u pryderon am yr effaith ar weithrediadau busnes a gweithwyr. Mae angen y tir sy'n cael ei feddiannu ganddynt yn eu depo presennol yn By Pass Road, Queensferry i gyflawni'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio ar gyfer y Cynllun. Rhoddwyd ystyriaeth helaeth i aliniadau ac opsiynau eraill, ac nid oes dewis ymarferol arall yn bodoli a fyddai'n osgoi'r angen i gaffael y tir.*
- *Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgysylltu â J&M Garner (Haulage) Ltd ers 2018 a rhoddwyd ystyriaeth helaeth i safleoedd amgen a chyfleoedd adleoli; fodd bynnag, nid oes dewis arall ymarferol wedi cael ei nodi, ac felly mae trafodaethau wedi symud ymlaen i faterion iawndal.*

- Pryderon Iawndal - Rhaid i unrhyw setliad adlewyrchu gwerth eiddo, offer, tarfu gweithredol a chostau cysylltiedig yn llawn.

    - *Bydd iawndal rhesymol yn cael ei dalu yn unol â darpariaethau statudol. Penodwyd Asiantaeth y Swyddfa Brisio (ASB) i roi cyngor ar faterion prisio ac iawndal, gan gynnwys costau tarfu. Mae'r cwmni'n cael ei annog i gyflwyno hawliad am iawndal drwy'r asiant neu'r arolygwr a benodwyd ganddynt.*

Mae'r gwrthwynebiad hwn i'r gorchymyn prynu gorfodol yn dal heb ei ddatrys ond mae'n ymwneud yn gyfan gwbl â materion iawndal.

27. SP Manweb Plc

Mae SP Energy Networks yn rhan o grŵp o gwmnïau ScottishPower.
SP Manweb Plc yw perchennog y drwydded sy'n gwasanaethu cwsmeriaid yng Ngogledd Cymru. Maent yn gyfrifol am ddiogelu, gweithredu, cynnal a datblygu parhaus y rhwydweithiau dosbarthu a thrawsyrru ledled Gogledd Cymru.

Roedd SP Manweb Plc yn gwrthwynebu'r Gorchmynion drafft oherwydd diffyg darpariaeth ddigonol i ddiogelu ei asedau rhwydwaith trydan allweddol. Fe wnaethant gyfeirio at eu seilwaith hanfodol a'u hasedau arwyddocaol o fewn ôl troed y Cynllun. Fe wnaethant gyfeirio hefyd at y ffaith eu bod yn gweithredu ac yn rheoli rhwydweithiau trydan hyd at 132kV, sy'n hanfodol er mwyn bodloni galw yn y dyfodol gan economi gwbl drydanol. Nododd SP Manweb Plc nifer o faterion, a ddangosir isod.

- Yr angen i ddargyfeirio asedau SP Manweb Plc yr effeithir arnynt ac asesu'r effeithiau ar eu rhwydwaith yn y cynllun.

    - *Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen diogelu a dargyfeirio asedau SP Manweb Plc. Rhannwyd cynllun yn tynnu sylw at wrthdaro posibl a gofynion dargyfeirio gydag SP Manweb Plc ym mis Tachwedd 2024 ac, ym mis Ionawr 2026, rhoddodd Llywodraeth Cymru gynllun wedi'i ddiweddaru i SP Manweb Plc yn dangos asedau a therfynau ymgeisio SP Manweb Plc, rhestr gryno o ofynion gwyro, ynghyd â rhagor o wybodaeth ategol mewn ymateb i'r materion a godwyd yn y gwrthwynebiad.*

Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ

- Byddai SP Manweb Plc angen mesurau diogelu sy'n cynnwys amserlen croesi gyda phellteroedd clirio ar gyfer llinellau uwchben; cynlluniau manwl sy'n dangos asedau SP Manweb Plc a therfynau datblygu arfaethedig; rheoli'r gwaith adeiladu gan gynnwys adran cyfleustodau a mesurau lliniaru.

    - *Mewn ymateb i'r gofynion hyn, rhoddodd Llywodraeth Cymru yr wybodaeth ganlynol i SP Manweb Plc drwy lythyr dyddiedig 14 Ionawr 2026:*
        - *Cynllun wedi'i ddiweddaru sy'n dangos asedau SP Manweb Plc a therfynau'r cais*
        - *Amserlen gryno yn rhestru holl ofynion gwyro SP Manweb Plc;*
        - *Lluniad cynllun sy'n dangos ardaloedd rhyngwyneb y llinellau trydan uwchben o fewn ffiniau'r Cynllun.*

- Byddai angen i ddogfen cytundeb Gofynion Darpariaethau Diogelu, wedi'i pharatoi gan SP Manweb Plc, fod mewn grym er mwyn diogelu asedau SP Manweb Plc yn ystod camau adeiladu a gweithredu'r Cynllun.

- Byddai hefyd angen digon o le ar SP Manweb Plc i gynnal a chadw a gweithredu asedau rhwydwaith yn ogystal â chynnal nifer o fuddiannau tir ar draws y safle.

    - *Mae Llywodraeth Cymru wedi mynd i'r afael â'r gofynion hyn drwy gytuno ar Ofynion Darpariaethau Diogelu gydag SP Manweb Plc, sydd bellach wedi cael ei lofnodi. Mae'r darpariaethau'n sicrhau bod buddiannau tir SP Manweb Plc yn cael eu cadw a, lle bo angen, yn cael eu disodli ar delerau nad ydynt yn llai ffafriol, ac yn mynnu bod mynediad a chyfleusterau priodol yn cael eu cynnal er mwyn gallu gweithredu, cynnal a chadw a rheoli asedau ei rwydwaith yn ddiogel drwy gydol y gwaith o adeiladu a gweithredu'r Cynllun.*

- Dywedodd SP Manweb Plc nad oedd cytundeb wedi'i wneud ynghylch y bwriad i brynu tir yn ei Ddepo yn Queensferry a gofynnwyd am ragor o ymgysylltu ynghylch effeithiau cynigion Llywodraeth Cymru ar weithrediad ei ddepo.

    - *Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu ag SP Manweb Plc ar y mater hwn, gan gynnwys cael cyfarfodydd safle gyda Rheolwr Logisteg Depo Queensferry. Cadarnhaodd SP Manweb plc nad oedd yn gwrthwynebu mewn egwyddor i'r bwriad i gaffael tir yn gyfagos i faes parcio'r depo; fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch yr effaith bosibl ar y briffordd gyhoeddus a mynediad i'r depo. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â'r canlynol:*
        - *lleoliad croesfan y llwybr cyd-ddefnyddio arfaethedig;*
        - *gwrthdaro posibl â cherbydau sy'n aros i gael mynediad i'r depo; ac*
        - *effaith y gwaith arfaethedig i ledu'r droetffordd ar symudiadau cerbydau i mewn ac allan o'r safle.*

    - *Mewn ymateb i'r adborth hwn, diwygiwyd cynigion y cynllun yn ystod cyfnod ymgynghori statudol y Gorchmynion drafft. Roedd y diwygiadau'n cynnwys y canlynol:*

Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ

- *cynyddu'r pellter rhwng y llwybr cyd-ddefnyddio a giatiau mynedfa'r depo o tua 15m i 41m;*
- *cyflwyno llwybr troed newydd tua 20m o gatiau'r depo i ffurfioli'r groesfan i gerddwyr i'r droedffordd bresennol ar Factory Road; a*
- *lleihau lled y gwaith i ledu'r droetffordd ar Factory Road o tua 5.0m i 1.8m.*

Yn dilyn hynny, cadarnhaodd SP Manweb Plc nad oedd ganddynt unrhyw bryderon heb eu datrys ynglŷn â'r materion hyn, yn dilyn y diwygiadau i'r Gorchmynion drafft sy'n ymwneud â'r trefniadau mynediad i Ddepo Queensferry, aliniad y llwybr teithio llesol a lleoliad y groesfan, a bod yr holl bryderon oedd ynghlwm â'r materion hyn wedi cael eu datrys a'u bod wedi tynnu eu gwrthwynebiad i'r Cynllun yn ôl yn ffurfiol. Disgrifir yr addasiadau dilynol i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a'r Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft ym mharagraffau 44.2 i 44.5 a 44.9 i 44.11 isod.

28. Dŵr Cymru Cyfyngedig

Roedd Dŵr Cymru Cyfyngedig yn gwrthwynebu'r Gorchmynion drafft oherwydd yr effaith bosibl ar weithrediad ei gyfarpar a'r gallu i'w gynnal a'i gadw, ei rwydwaith carthffosiaeth, ei waith trin dŵr gwastraff, a'i bibellau dŵr cyhoeddus. Gofynnodd Dŵr Cymru Cyfyngedig am sawl sicrwydd gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi'u rhestru isod. O ganlyniad i'r sicrwydd a roddwyd gan Lywodraeth Cymru, tynnodd Dŵr Cymru Cyfyngedig ei wrthwynebiad i'r gorchmynion drafft yn ôl yn ffurfiol ar 10 Rhagfyr 2025.

- Os bydd angen dargyfeirio unrhyw gyfarpar Dŵr Cymru Cyfyngedig, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y ceisiadau perthnasol ac yn ymrwymo i gytundebau angenrheidiol gyda Dŵr Cymru Cyfyngedig ac yn gyfrifol am gostau unrhyw ddargyfeirio asedau sydd angen.

    - *Pan fydd angen dargyfeirio a / neu ddiogelu cyfarpar Dŵr Cymru Cyfyngedig o ganlyniad uniongyrchol i'r Cynllun, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud ar gyfer ymrwymo i'r cytundebau gofynnol ac ar gyfer talu'r costau cysylltiedig. Mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau y bydd yn dilyn proses Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 i sicrhau canlyniad teg i bob parti.*

- Gan y bydd y datblygiad yn digwydd yng nghyffiniau Gwaith Trin Dŵr Gwastraff byw, bydd Dŵr Cymru Cyfyngedig yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru weithio gyda Dŵr Cymru Cyfyngedig i sicrhau na fydd unrhyw effaith niweidiol ar y gwaith, ei strwythurau na'i weithrediad.

    - *Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd yn ymgysylltu â Dŵr Cymru Cyfyngedig yn ystod y gwaith dylunio ac adeiladu manwl i gytuno ar fesurau a fydd yn atal unrhyw effaith niweidiol ar y gwaith, ei strwythurau a'i weithrediad. Bydd yr ymgysylltu hwn yn rhan o'r broses gydlynu barhaus a bydd yn cael ei flaenoriaethu i roi sicrwydd cyn i'r gwaith ddechrau.*

- Er mwyn penderfynu beth fydd yr effaith ar eu cyfarpar, bydd Dŵr Cymru Cyfyngedig yn mynnu bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion llawn a chynlluniau'r gwaith adeiladu arfaethedig, manylion llawn y Gorchymyn Prynu Gorfodol gan gynnwys

Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ

manylion fel yr hawliau mewn tir y bwriedir eu dileu oherwydd y Gorchymyn, y tir a fydd yn cael ei ddefnyddio dros dro, ac unrhyw fanylion cau.

- *Cadarnhawyd hyd a lled y gwaith dargyfeirio a diogelu angenrheidiol (gan gynnwys Gwaith Trin Dŵr a Mwy) yn eich amcangyfrif o gyllideb C3 a ddarparwyd ym mis Gorffennaf 2025, cyfeirnod WMD0003489 (Gwastraff). Datblygwyd y cwmpas hwn yn dilyn cydweithio sylweddol rhwng tîm prosiect Llywodraeth Cymru a Dŵr Cymru Cyfyngedig ers 2018, ac yn ystod y cyfnod hwnnw:*

- *Mae ymgysylltu helaeth wedi digwydd i ganfod a chytuno ar effaith y cynllun ar gyfarpar Dŵr Cymru Cyfyngedig.*

- *Mae cynlluniau'r cynigion wedi cael eu rhannu â Dŵr Cymru Cyfyngedig drwy gydol y broses ddylunio, ac mae Dŵr Cymru Cyfyngedig wedi darparu ei gwmpas ar gyfer gwaith dargyfeirio a diogelu ar sail y cynigion hyn.*

- *Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd gwybodaeth ddylunio fanwl yn parhau i esblygu wrth i'r Cynllun fynd rhagddo; fodd bynnag, cytunwyd eisoes ar y gofynion sylfaenol ar gyfer dargyfeirio a diogelu ac maent wedi cael eu cofnodi. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn aros am gadarnhad o gynnig ffioedd dylunio gan Dŵr Cymru Cyfyngedig i fwrw ymlaen â materion dylunio manwl.*

- Yn unol â Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, bydd Dŵr Cymru Cyfyngedig angen mynediad dirwystr i'w gyfarpar bob amser er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio.

  - *Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y dyluniad manwl a'r cynlluniau adeiladu yn ymgorffori mesurau i gynnal mynediad Dŵr Cymru Cyfyngedig drwy gydol y gwaith. Bydd hon yn ystyriaeth allweddol yn ystod y gwaith o gydlynu â Dŵr Cymru Cyfyngedig, a bydd unrhyw gyfyngiadau dros dro yn cael eu rheoli drwy drefniadau y cytunwyd arnynt i osgoi tarfu gweithredol.*

  - *Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn sicrhau y bydd y trefniadau mynediad angenrheidiol yn eu lle ar gyfer cyfarpar Dŵr Cymru Cyfyngedig ar ôl cwblhau'r Cynllun. Bydd tîm prosiect Llywodraeth Cymru yn darparu lluniadau ac amserlenni i Dŵr Cymru Cyfyngedig i ddangos y llwybrau mynediad sydd ar gael i sicrhau bod modd archwilio a chynnal a chadw asedau Dŵr Cymru Cyfyngedig yn ddiogel ac yn effeithiol yn y dyfodol.*

- Gan nad oes strategaeth draenio dŵr wyneb ategol, dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â Chyngor Sir y Fflint, fel y Corff Cymeradwyo SuDS sy'n penderfynu, mewn perthynas â chynigion y Cynllun.

  - *Mae Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (paragraff 2.43) yn cadarnhau bod gwaith adeiladu ar gyfer ffordd, lle mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod priffyrdd, wedi'u heithrio rhag cael cymeradwyaeth Corff Cymeradwyo SuDS. Er gwaethaf yr eithriad hwn, dyluniwyd y Cynllun yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Safonau Cenedlaethol Statudol ar gyfer SuDS, ac mae cyfleoedd i ymgorffori SuDS wedi cael eu cymryd lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.*

Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ

- *Nododd Llywodraeth Cymru hefyd gais Dŵr Cymru Cyfyngedig i gysylltu â nhw i sefydlu a yw'r egwyddor o lif dŵr wyneb i'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus yn dderbyniol. Mae'r gofyniad hwn wedi'i gynnwys yng Nghwmpas y dyluniad manwl, sy'n datgan y bydd y Dylunydd yn ymgynghori â Dŵr Cymru Cyfyngedig ynghylch y mater hwn.*

29. Knauf Insulation Limited

Mae Knauf Insulation Limited, drwy eu hasiant DWD Ltd, wedi gwrthwynebu i'r defnydd o bwerau Gorchymyn Prynu Gorfodol ar eu tir ar y seiliau canlynol:

- Ni fu unrhyw ymgysylltu uniongyrchol â Knauf Insulation Limited ynghylch cynigion y cynllun.
    - *Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pryder Knauf Insulation ynghylch ymgysylltu ac yn gwerthfawrogi, er gwaethaf camau blaenorol, y gallent deimlo bod hyn wedi bod yn gyfyngedig. I egluro, mae'r camau canlynol wedi cael eu cymryd i gynnwys Knauf Insulation drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r cynllun:*
    - *Ar 31 Ionawr 2019 anfonwyd Holiadur Gwybodaeth Tir at Knauf Insulation Limited ac yna nodyn atgoffa ar 4 Ebrill 2019. Cofnodwyd bod y ddau wedi cael eu hanfon, er na chafwyd ymateb gan Knauf Insulation Limited bryd hynny.*
    - *Cynhaliwyd Digwyddiadau Gwybodaeth i'r Cyhoedd yn 2018 a 2025, a gwahoddwyd busnesau a thrigolion lleol. Hysbysebwyd y digwyddiadau yn yr ardal leol hefyd.*
    - *Ar 6 Chwefror 2025, anfonwyd Holiadur Gwybodaeth am Dir arall, wedi'i ddiweddaru yn 2025. Ar 11 Mawrth 2025, fe wnaeth Andrew Houghton o Knauf Insulation Limited gydnabod eu bod wedi cael yr Holiadur Gwybodaeth am Dir, a chafodd ei lenwi a'i ddychwelyd ar 26 Mawrth 2025.*
    - *Ar 9 Hydref 2025, e-bostiwyd gwybodaeth fanwl am y cynllun, gan gynnwys cynlluniau trefniadau cyffredinol a manylion arddangosfeydd cyhoeddus, at Andrew Houghton o Knauf Insulation Limited. Yn ei ymateb, cadarnhaodd ei fod wedi'i dderbyn a dywedodd fod yr wybodaeth wedi cael ei rhannu'n fewnol â thimau cyfreithiol a rheoli peiriannau Knauf.*
    - *Rhoddwyd copi o'r gorchymyn prynu gorfodol drafft i asiant penodedig Knauf Insulation Limited, Ms. Emma Penson o DWD, ar 9 Hydref 2025.*
    - *Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i gyfathrebu'n agored ac mae'n fodlon cwrdd â Knauf Insulation Limited neu eu Hasiant i drafod unrhyw ymholiadau sydd heb eu datrys.*
- Ni roddwyd unrhyw gyfiawnhad i Knauf Insulation Limited ynghylch faint o dir sydd ei angen nac, yn wir, cyfiawnhad dros gymryd y tir yn ei gyfanrwydd. Yr arfer gorau yw ymgysylltu a rhannu gwybodaeth o gam cynnar yn y broses Gorchymyn Prynu Gorfodol,

ond ni fu unrhyw ymgais i ymgysylltu â'r perchennog hwn ynghylch unrhyw gynigion o'r fath.

- *Mae angen y tir i gyflawni'r Cynllun, sy'n golygu adeiladu Pont Afon Dyfrdwy newydd yr A494 yn union i fyny'r afon o'r strwythur presennol. Mae'r dull hwn yn tarfu cyn lleied â phosibl ar draffig yn ystod y gwaith adeiladu drwy gadw'r bont bresennol yn weithredol a chynnal cysylltedd ar gyfer dros 70,000 o gerbydau bob dydd, gan ddiogelu cysylltiadau economaidd a chymdeithasol ledled Gogledd Cymru.*

- *Mae'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio ar gyfer y cynllun hefyd yn gofyn am ail-alinio Draen Queensferry a gwneud gwelliannau bioamrywiaeth, sy'n golygu bod angen tir ychwanegol i'r de-ddwyrain o goridor yr A494, gan gynnwys y tir o'r enw WA873872. Er mwyn bod yn gyflawn, mae angen lleiniau 1/6 ac 1/6b ar gyfer gwelliannau tirweddu a bioamrywiaeth, ac mae angen llain 1/6a i gynnal mynediad i'r man cynnal a chadw rheilffyrdd presennol.*

  I fod yn gwbl glir, mae fersiwn ddiweddaraf lluniad y Trefniant Cyffredinol (Cyf: 395318-MMD-00-XX-DR-C-0002, Rev P06) yn dangos y gofynion arfaethedig o ran y gwaith a'r tir.

- *Mae Gweinidogion Cymru yn pwysleisio y dylid ceisio sicrhau'r buddiannau angenrheidiol drwy gytundeb o'r cychwyn cyntaf wrth weithredu cynllun Gorchymyn Prynu Gorfodol arfaethedig. Dylai prynu tir yn orfodol fod yn 'ddewis olaf' ac eto nid yw Knauf Insulation Limited wedi cael unrhyw ohebiaeth gan yr awdurdod caffael ynghylch bwriad i gaffael drwy gytundeb ac nid oes cynnig wedi'i wneud i brynu'r tir dan sylw.*

- *Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn llwyr y dylai prynu gorfodol fod yn ddewis olaf. Mae'r broses awdurdodi statudol o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 a Deddf Caffael Tir 1981 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Gorchmynion drafft ar gyfer y cynllun. Fodd bynnag, bwriad Llywodraeth Cymru o hyd yw caffael tir drwy gytundeb lle bynnag y bo modd.*

- *Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n croesawu'r cyfle i drafod telerau ar gyfer caffael gwirfoddol a chytuno ar iawndal rhesymol gyda Knauf Insulation Ltd a gofynnodd am amser cyfleus i gynnal cyfarfod i fwrw ymlaen â'r gwrthwynebiad.*

Ymateb Knauf Insulation Ltd oedd eu bod yn dymuno i Lywodraeth Cymru wneud cynnig a gofynnodd am farn ar Brisiad Marchnad Rheol 2. Drwy wneud hynny, gall yr hawlydd ystyried hyn ochr yn ochr â'r cyngor prisio y mae'n ei gael.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfarwyddo'r Prisiwr Dosbarth i baratoi prisiad marchnad o'r tir, ac mae hyn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Mae'r gwrthwynebiad hwn i'r Gorchymyn Prynu Gorfodol yn dal heb ei ddatrys ac mae'n ymwneud yn gyfan gwbl â materion iawndal.

GWRTHWYNEBIAD ANSTATUDOL

30. Jones Balers Farms Limited

Jones Balers Farms Ltd yw perchnogion Fferm Ferry Bank, sydd wrth ymyl ffin gogledd-ddwyreiniol y Cynllun. Mae'r tir sy'n union gerllaw'r fferm wedi cael ei nodi i'w ddefnyddio fel rhan o gynllun i ddargyfeirio llwybr teithio llesol Llwybr Arfordir Cymru dros dro ac fel ardal waith adeiladu wrth gyflawni'r Cynllun. Er bod y fferm y tu allan i'r ardal a gwmpesir gan y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft, ac nad oes unrhyw dir na hawliau'n cael eu caffael ar gyfer y Cynllun, mae Jones Balers Farms Ltd wedi gwrthwynebu'r Cynllun ar y seiliau a nodir isod.

- Gallai'r Cynllun arwain at fwy o sŵn, llanast, dirgryniadau, difrod, peryglon, anghysur a gwaethygiad i'r tenant, yr adeilad a'r eiddo a mynediad yn ystod y cam adeiladu, a byddent yn croesawu cynigion lliniaru ar gyfer y materion hyn.

    - *Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pryderon ynghylch sŵn, llwch, dirgryndod a mynediad yn ystod y gwaith adeiladu. Bydd Llywodraeth Cymru a'r contractwr penodedig yn rhoi Cynllun Rheoli Amgylcheddol ar waith fel y nodir yn y Datganiad Amgylcheddol, sydd ar gael yma: https://www.llyw.cymru/a494-pont-afon-dyfrdwy. Bydd y contractwr yn datblygu Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu a fydd yn nodi'r gweithdrefnau a'r mesurau monitro a fydd yn cael eu mabwysiadu yn ystod y gwaith, fel:*

        - *Rheoli llwch gan ddefnyddio'r dull ymarferol gorau i leihau allyriadau.*

        - *Rheoli sŵn a dirgryniadau yn dilyn canllawiau LA111 y Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd, gyda mesurau lliniaru ychwanegol lle rhagwelir effeithiau niweidiol sylweddol.*

        - *Triniaethau ffiniau dros dro er mwyn cynnal diogelwch a phreifatrwydd yn ystod gwaith.*

- Tybir y bydd bod yn agosach at draffig yn arwain at fwy o sŵn, cynnydd yn y rhannau y filiwn o fygdarth cerbydau a phresenoldebau eraill, a gostyngiad yng ngolau'r haul. Ar ôl y gwaith adeiladu, bydd yn cynyddu gyda lefel y traffig dros amser. Bydd hyn yn effeithio ar amodau byw a chysur bywyd eu tenant, yn ogystal â phris rhentu, gwerth gwerthu a gwerth cyffredinol yr eiddo hwn dros y blynyddoedd.

    - *Mae Llywodraeth Cymru yn deall bod pryderon yn ymwneud â'r cam adeiladu, a hefyd ag effeithiau gweithredol hirdymor y Cynllun. Yn benodol, fel y nodwyd, cynnydd posibl mewn sŵn traffig, dirywiad yn ansawdd yr aer, a llai o olau haul, yn ogystal â'r goblygiadau y gallai'r rhain eu cael ar gysur eich tenant a gwerth Fferm Ferry Bank yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r materion hyn yn fanwl ac yn ymateb fel a ganlyn:*

        - *Ansawdd yr aer: Mae gwaith monitro a modelu yn dangos y bydd lefelau NO_2 a deunydd gronynnol yn Fferm Ferry Bank yn dal yn is o lawer na safonau ansawdd aer y DU, gyda'r newidiadau disgwyliedig yn cael eu disgrifio fel rhai anghanfyddadwy.*

- *Sŵn: Nid yw'r Cynllun yn cynyddu capasiti na chyflymder traffig ac nid yw'n dod â'r gerbytffordd yn nes at eich eiddo. Rhagwelir mai bach iawn fydd y newidiadau mewn sŵn traffig.*

- *Golau'r haul: Ni fydd unrhyw newid i aliniad yr A494 yn y lleoliad hwn ac felly ni fydd gostyngiad yng ngolau'r haul i'r eiddo ar ôl y gwaith adeiladu.*

- *Effaith Weledol: Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn nodi y bydd effaith niweidiol ganolig yn ystod y gwaith adeiladu ond na fydd newid tymor hir ar ôl cwblhau'r gwaith.*

- Sefyllfa o ran Iawndal

    - *Gan fod yr eiddo y tu allan i'r tir sydd ei angen ar gyfer y cynllun, nid oes unrhyw dir na hawliau'n cael eu caffael ar gyfer yr eiddo hwn, nid oes iawndal yn daladwy ar hyn o bryd o dan y darpariaethau statudol ar gyfer prynu gorfodol. Fodd bynnag, o dan Ran I o Ddeddf Iawndal Tir 1973, efallai y bydd hawl gan Jones Balers Farms Limited i hawlio iawndal am unrhyw ddibrisiant yng ngwerth yr eiddo a achosir gan ffactorau ffisegol (fel sŵn, dirgryniadau, mygdarth) sy'n deillio o ddefnyddio'r ffordd newydd neu'r ffordd wedi'i haddasu. Gellir gwneud yr hawliadau hyn flwyddyn ar ôl i'r ffordd fod ar agor i draffig cyhoeddus am y tro cyntaf, yn amodol ar feini prawf cymhwyso. Mae rhagor o ganllawiau ar gael yn: https://www.llyw.cymru/iawndal-pan-fydd-ffordd-yn-effeithio-ar-werth-eich-eiddo*

YMATEB I'R DATGANIAD AMGYLCHEDDOL

31. Cyfoeth Naturiol Cymru

Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru, fel y corff cadwraeth natur statudol ar gyfer Cymru, wedi adolygu ac wedi gwneud sylwadau ar y Datganiad Amgylcheddol, y Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol, yr Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd a'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Cyn Adeiladu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi sylw i sylwadau cychwynnol Cyfoeth Naturiol Cymru a diweddarwyd model llifogydd y Cynllun yn dilyn sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r gwaith modelu'n cadarnhau bod yr effeithiau risg llifogydd sy'n gysylltiedig â'r Cynllun yn dal yn cyd-fynd â'r casgliadau a nodwyd yn flaenorol yn yr Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd. Er bod gwelliannau wedi cael eu gwneud i fynd i'r afael â sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru, a bod y diweddariadau cysylltiedig wedi cael eu hymgorffori yn yr Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd a'r Datganiad Amgylcheddol, nid oes disgwyl i'r canlyniad cyffredinol newid. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod â Cyfoeth Naturiol Cymru wrth i'r gwaith o ddylunio'r cynllun ddatblygu er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon a bydd y perygl o lifogydd yn cael ei ystyried yn llawn.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau ei fod yn cytuno â chasgliadau'r Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol - sef na fydd y Cynllun yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig o dan y Rheoliadau Cynefinoedd - ac mae wedi cadarnhau nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i fod yn gwrthwynebu'r Cynllun. Maent hefyd wedi cadarnhau nad oes ganddynt unrhyw sylwadau pellach ar hyn o bryd ac maent

yn edrych ymlaen at gael rhagor o wybodaeth yn y cam dylunio manwl pan fydd y Cynllun yn symud yn ei flaen.

SYLWADAU

32. Un o Gynghorwyr Cyngor Sir y Fflint

Cododd cynghorydd o Gyngor Sir y Fflint fater capasiti lonydd. Bydd gan y Cynllun 2 lôn i bob cyfeiriad, ac mae'r Cynghorydd yn dweud nad yw hynny'n ddigonol. Mae'r pwyntiau a godwyd gan y cynghorydd wedi'u rhestru isod ac ymateb Llywodraeth Cymru wedi hynny (mewn llythrennau italig):

- Problemau Traffig Presennol: Mae'r ardal eisoes yn profi tagfeydd sy'n dod â thraffig i stop yn ddyddiol yn ystod oriau brig oherwydd bod y bont bresennol yn gostwng o 3 lôn i 2 lôn.

    - *Mae angen Cynllun Adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494 oherwydd bod y bont bresennol yn nesáu at ddiwedd ei hoes weithredol.*

- Colli Cyfle: Mae adeiladu'r bont gyda dim ond 2 lôn yn cael ei ystyried yn gyfyngiad parhaol, gan arwain at anhrefn traffig parhaus.

    - *Yn dilyn Adolygiad Ffyrdd Llywodraeth Cymru (Chwefror 2023), cafodd y cynllun ei ail-werthuso o dan Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) wedi'i ddiweddaru i fodloni'r pedwar prawf adeiladu ffyrdd.*

    - *Yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio yw dyluniad dwy lôn ar bob cerbytffordd, sy'n cyd-fynd â'r polisi presennol, yn cynnig gwell gwerth am arian, yn gwella cadernid y rhwydwaith, ac yn lleihau effeithiau amgylcheddol a charbon.*

- Pryder o ran Cost: Byddai'n llawer drutach i ychwanegu lonydd ychwanegol yn ddiweddarach na fyddai i'w cynnwys yn ystod y gwaith adeiladu cychwynnol. Anogodd y cynghorydd ailystyried er mwyn gwneud y bont yn un 3 lôn i bob cyfeiriad nawr

    - *Bydd lleiniau caled yn cael eu cynnwys ar y ddwy gerbytffordd er mwyn gwella diogelwch a lleihau aflonyddwch yn ystod digwyddiadau.*

    - *Mae dyluniad y bont yn caniatáu ar gyfer addasiadau yn y dyfodol, fel troi lleiniau caled yn lonydd gweithredol os oes angen.*

    - *Mae astudiaeth o anghenion trafnidiaeth a chadernid yn cael ei chynnal ar goridor yr A55 a'r A494 i fynd i'r afael â diogelwch, cysylltedd, cadernid hinsawdd a thwf economaidd.*

    - *Nod prosiect Rhwydwaith Gogledd Cymru yw gwella cysylltedd rhanbarthol drwy opsiynau trafnidiaeth aml-ddull (trenau, bysiau, cerdded, beicio) i leihau tagfeydd.*

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cefnogi'r Cynllun arfaethedig yn gyffredinol fel y nodir ym mharagraff 19.

33. Yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio

Rhoddodd yr Awdurdod Glo gyngor ar y materion canlynol ac roedd ymatebion dilynol Llywodraeth Cymru (mewn llythrennau italig) yn cadarnhau fod eu pryderon wedi cael sylw

- Dylai unrhyw gynigion ystyried problemau posibl o ran gwaddol y pyllau glo. Mae gwybodaeth am weithgarwch cloddio glo ar yr wyneb ac o dan y ddaear yn y gorffennol, y presennol a gweithgarwch sydd yn yr arfaeth ar gael drwy adnoddau ar-lein yr Awdurdod. Nodir na ellir prynu buddiant rhydd-ddaliadol yr Awdurdod Glo mewn glo a phyllau glo yn orfodol, fel y nodir o dan Adrannau 7(3) a 10 o Ddeddf y Diwydiant Glo 1994.

    - *Fe wnaeth chwiliadau tir gadarnhau nad oes gan yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio unrhyw berchnogaeth ar dir na hawliau mwynau yn yr ardaloedd sy'n cael eu caffael ar gyfer Cynllun yr A494.*

    - *Adolygodd Llywodraeth Cymru faterion cloddio glo etifeddol fel rhan o'i phroses rheoli risg geodechnegol o dan CD 622 (Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd). Mae Adroddiad yr Astudiaeth Ffynonellau Rhagarweiniol (PSSR) a'r Adroddiad Cloddio Glo yn nodi glo bas ac adnoddau cysylltiedig (clai tân, clai brics) yn y rhanbarth. Er bod nifer o wythiennau glo a lleoliadau cloddio wedi cael eu nodi ar hyd yr A494, maent i'r de o Gyfnewidfa Queensferry a'r tu allan i ardal astudio'r Cynllun, sy'n golygu ei bod yn annhebygol y bydd gweithgarwch cloddio'n effeithio ar y safle.*

- Os oes angen ymchwiliadau safle neu waith ymwthiol arall sy'n cynnwys pyllau glo neu fwynau, rhaid cael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Awdurdod Glo. Rhaid i bob gweithgaredd o'r fath gydymffurfio â gweithdrefnau caniatáu'r Awdurdod, sydd ar gael drwy eu gwefan neu drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r tîm Trwyddedu.

    - *Cydnabu Llywodraeth Cymru weithdrefnau caniatáu a thrwyddedu'r Awdurdod a chadarnhaodd y bydd y gofynion hyn yn cael eu hymgorffori yng nghwmpas gwaith y prif gontractwr.*

34. CADW

Ymatebodd CADW nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig o ran henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig, a pharciau a gerddi hanesyddol cofrestredig. Cadarnhaodd na fyddai unrhyw effaith hirdymor ar y rhan fwyaf o asedau o fewn 3 km, ac eithrio effaith fach ac ansylweddol ar bum adeilad rhestredig. Dywedodd hefyd y byddai rhywfaint o effaith uniongyrchol ar rai asedau hanesyddol heb eu dynodi yn ystod y cyfnod adeiladu, ond bydd y rhain yn cael eu lliniaru drwy ymchwiliadau archaeolegol ac ni fydd yr effeithiau'n sylweddol os defnyddir mesurau lliniaru. Yn olaf, roedd Cadw yn cytuno â chasgliadau'r Datganiad Amgylcheddol ac yn cefnogi'r mesurau lliniaru arfaethedig.

    - *Diolchodd Llywodraeth Cymru i Cadw am ei adolygiad a'i sylwadau ar y datblygiad arfaethedig, y Gorchmynion drafft a'r Datganiad Amgylcheddol.*

35. T.K. Motor Repairs, Queensferry

Mae T. K. Motors wedi'u rhestru fel tenantiaid ar dir sydd wedi'i gynnwys yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft. Fe wnaethant nodi eu bod yn cysylltu ag asiant i gael cyngor ond fe wnaethant ofyn am eglurhad o'r broses statudol a materion iawndal.

- *Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gwrdd â T. K. Motors a rhoi gwybod iddynt am gamau nesaf y broses statudol, sut mae materion iawndal yn cael eu hystyried, a'r hyn y mae gan hawlwyr hawl iddo mewn perthynas ag ad-dalu ffioedd proffesiynol teg a rhesymol.*

Cadarnhaodd T. K. Motors yn ddiweddarach nad oedd ganddynt wrthwynebiad i'r Gorchmynion drafft.

36. Archaeoleg Heneb

Mynegodd Archaeoleg Heneb gefnogaeth i'r Cynllun a'r rhan
fwyaf o fesurau lliniaru a amlinellir yn Adran 10.7 y Datganiad Amgylcheddol. Fe wnaethant fynegi'r pwyntiau canlynol ynghylch Safle 48 (Cei Aston) ac wedyn fe wnaethant gadarnhau bod ymateb Llywodraeth Cymru wedi mynd i'r afael â'u pryderon.

- Yn argymell cofnodi'r lanfa bresennol a gweddillion y llwyfan lanio cyn eu gwaredu.

- Wedi awgrymu defnyddio arolwg archaeolegol neu ffotogrammetrig Lefel 2. Dylid egluro'r gofyniad hwn yn benodol yn y Datganiad Amgylcheddol a'r Asesiad Desg.

- Camau Gwrthbwyso i:
  - Cefnogi ymchwiliad archaeolegol arfaethedig.
  - Yn awgrymu dull stripio a chofnodi wrth glirio'r safle.
  - Y posibilrwydd o gloddiad llawn o dan fonitro archaeolegol os bydd angen.

    - *Mewn ymateb, derbyniwyd yr argymhellion hyn gan Lywodraeth Cymru. Byddant yn cael eu cyflawni drwy arolwg archaeolegol Lefel 2 a/neu arolwg drôn ffotogrametrig, gan glirio llystyfiant os bydd angen.*

- Mae'n argymell amod i sicrhau bod rhaglen o waith archaeolegol yn cael ei rhoi ar waith cyn datblygu, gan ddilyn safonau Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr (CIfA).

- Angen cyflwyno adroddiadau ac archifau digidol i awdurdodau a chofnodion perthnasol.

    - *Ymatebodd Llywodraeth Cymru a datgan y bydd yn rhaid i'r contractwr adeiladu ymchwilio a chofnodi tystiolaeth archaeolegol o Gei Aston yn unol â'r Gofrestr o Gamau Gweithredu ac Ymrwymiadau Amgylcheddol (REAC). Rhoddwyd cefnogaeth i wrthbwyso archaeolegol wrth glirio'r safle ac amod cynllunio ar gyfer rhaglen o waith archaeolegol drwy Gynllun Ymchwilio Ysgrifenedig.*

- Rhaid i'r contractwr gyflwyno Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig (WSI) i'w gymeradwyo cyn y gwaith.

    - *Mewn ymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd arolygon archaeolegol uwch a briffiau gwylio yn cael eu cynnal yn unol â Chynllun Ymchwilio Ysgrifenedig y cytunwyd arno yn ystod y camau rhagarweiniol. Bydd y contractwr yn drafftio'r*

Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig i'w gytuno â Llywodraeth Cymru ac Archaeoleg Heneb cyn i unrhyw waith archaeolegol ddechrau.

37. Un o drigolion Claremont Avenue, Garden City

Ysgrifennodd un o'r trigolion sy'n byw ger y Cynllun, i ofyn am gopïau o'r Gorchmynion drafft sy'n ymwneud â Chynllun Adnewyddu arfaethedig Pont Afon Dyfrdwy yr A494. Roedd yr ohebiaeth yn dangos bod y preswylydd wedi cael llythyrau hysbysu gan Lywodraeth Cymru a'i fod yn dymuno adolygu'r dogfennau drafft.

- *Ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy ddarparu dolenni electronig i'r Gorchymyn Llinell a Phont ddrafft a'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl drafft, ynghyd â dolen i dudalen we Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys y Datganiad Amgylcheddol a dogfennau ategol eraill am y Cynllun. Rhoddwyd gwybod i'r preswylydd hefyd am ddyddiadau, amseroedd a lleoliadau'r digwyddiadau galw heibio arddangosfa gyhoeddus sydd ar y gweill, lle byddai aelodau o dîm y prosiect ar gael i ateb cwestiynau am y Cynllun.*

Ni fynegodd y preswylydd wrthwynebiad i'r Gorchmynion drafft ac ni chyflwynodd unrhyw sylwadau yn ymwneud ag egwyddor nac effeithiau'r Cynllun.

38. Un o drigolion Dundas Street, Queensferry

Cysylltodd un o drigolion Dundas Street, Queensferry, â thîm y prosiect ar ôl cael llythyr hysbysu ynghylch Cynllun Adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy yr A494. Gofynnodd y preswylydd am eglurhad ynghylch a oedd yr ohebiaeth yn ymwneud â gwybodaeth gyffredinol a tharfu posibl yn unig, neu a oedd yn nodi bod gorchymyn prynu gorfodol a wnaed yn flaenorol mewn cysylltiad â chynigion cynharach yn cael ei orfodi. Gofynnodd y preswylydd hefyd am gadarnhad o leoliad y bont newydd arfaethedig mewn perthynas â'r ffordd gerbydau bresennol, gan nodi'r effaith bosibl y gallai hyn ei chael ar ei eiddo.

- *Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod y llythyr wedi cael ei anfon er gwybodaeth yn unig, i roi gwybod i breswylwyr yng nghyffiniau'r Cynllun am y cynigion a'r digwyddiadau galw heibio cyhoeddus a oedd ar y gweill. Esboniwyd nad oedd yr hysbysiad yn arwydd y byddai unrhyw orchymyn prynu gorfodol yn cael ei orfodi mewn perthynas â'u heiddo, a bod yr ohebiaeth wedi cael ei hanfon oherwydd bod yr eiddo o fewn radiws penodol i'r Cynllun arfaethedig. Dywedwyd wrth y preswylydd y gallai ddod i'r digwyddiadau arddangos sydd ar y gweill i weld y cynlluniau a'r dogfennau ategol ac i drafod unrhyw gwestiynau'n uniongyrchol ag aelodau o dîm y prosiect.*

Ni fynegodd y preswylydd wrthwynebiad i'r Gorchmynion drafft ac ni chyflwynodd unrhyw sylwadau yn ymwneud ag egwyddor nac effeithiau'r Cynllun.

39. Un o drigolion Claremont Avenue, Garden City

Cysylltodd un o drigolion Claremont Avenue, sy'n byw wrth ymyl yr A494 ac Afon Dyfrdwy, â thîm y prosiect i ofyn am wybodaeth am yr hawl i iawndal yn deillio o'r Cynllun arfaethedig i Adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy yr A494. Gofynnodd eu sylwadau am eglurhad ynghylch

pwy i gysylltu â nhw ynghylch iawndal a gofynnwyd am ragor o wybodaeth am y gwaith arfaethedig yng nghyffiniau eu heiddo.

- *Rhoddodd Llywodraeth Cymru ddolen i'r preswylydd at ganllawiau a gyhoeddwyd ar iawndal lle mae defnyddio ffordd newydd neu well yn effeithio ar werth eiddo, gan gynnwys gwybodaeth am gymhwysedd a'r broses statudol.*

- *Eglurwyd bod y gwaith arfaethedig yng nghyffiniau Claremont Avenue yn cynnwys tynnu i lawr dec ac ategwaith presennol y bont, uwchraddio'r llwybr presennol sy'n cysylltu Claremont Avenue â Llwybr Arfordir Cymru (gan gynnwys lledu, ailwynebu a gosod croesfan newydd i gerddwyr a beicwyr), a dargyfeirio cyfleustodau o fewn y briffordd gyhoeddus neu'r llain las bresennol.*

- *Cyfeiriwyd y preswylydd hefyd at dudalen we Cynllun Llywodraeth Cymru i gael rhagor o wybodaeth a chafodd wahoddiad i fynychu'r digwyddiadau arddangos galw heibio i drafod unrhyw bryderon penodol yn uniongyrchol ag aelodau o dîm y prosiect.*

Ni fynegodd y preswylydd wrthwynebiad i'r Gorchmynion drafft ac ni chyflwynodd unrhyw sylwadau yn ymwneud ag egwyddor y Cynllun nac ynglŷn â chaffael tir yn orfodol.

40. Rostons Limited (ar ran Mr Darlington)

Cysylltodd tîm prosiect Llywodraeth Cymru â Rostons Limited, sy'n gweithredu ar ran eu cleient Mr Darlington, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyhoeddi'r Gorchmynion drafft ar gyfer Cynllun Adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy yr A494. Roedd yr ohebiaeth yn nodi'r rhaglen ymgynghori, dyddiad cyhoeddi disgwyliedig y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft, manylion y digwyddiadau arddangos cyhoeddus sydd ar y gweill, ac yn darparu mynediad at luniadau'r cynllun a gwybodaeth ategol.

- *Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth Rostons Limited fod y Gorchymyn Llinell a Phont, y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a'r Datganiad Amgylcheddol drafft wedi cael eu cyhoeddi, a bod y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft i fod i gael ei gyhoeddi yn fuan ar ôl hynny.*

- *Darparwyd manylion y digwyddiadau arddangos cyhoeddus, ynghyd â dolen i dudalen we Cynllun Llywodraeth Cymru a chopi o'r lluniad trefniant cyffredinol.*

- *Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru hefyd ei bod yn barod i gwrdd â Rostons Limited a'u cleient, naill ai'n rhithiol neu wyneb yn wyneb, i drafod unrhyw gwestiynau neu bryderon sy'n codi o'r Cynllun.*

Roedd Rostons Limited yn cydnabod y diweddariad gan ddweud y byddent yn trafod yr wybodaeth gyda'u cleient ac yn dod yn ôl atynt ynghylch cyfarfod posibl. Ni fynegwyd unrhyw wrthwynebiad i'r Gorchmynion drafft, ac ni wnaed unrhyw sylwadau mewn perthynas ag egwyddor y Cynllun na'r bwriad i gaffael tir yn orfodol.

41. Un o drigolion Claremont Avenue, Garden City

Cysylltodd un o drigolion Claremont Avenue â Llywodraeth Cymru yn dilyn sïon lleol y gallai eiddo ar Claremont Avenue fod yn cael eu prynu'n orfodol mewn cysylltiad â Chynllun Adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy yr A494. Gofynnodd y preswylydd am eglurhad a gwybodaeth bellach, gan nodi pryderon ymysg trigolion yr ardal.

- *Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru na fydd unrhyw eiddo preswyl yn cael ei brynu'n orfodol ar Claremont Avenue fel rhan o'r Cynllun.*

- *Eglurwyd bod y gwaith yng nghyffiniau uniongyrchol Claremont Avenue wedi'u cyfyngu i uwchraddio'r llwybr cerrig graean presennol sy'n cysylltu Claremont Avenue â Llwybr Arfordir Cymru (gan gynnwys lledu, ailwynebu a gosod croesfan newydd i gerddwyr a beicwyr), yn ogystal â dargyfeirio cyfleustodau o fewn y briffordd gyhoeddus neu'r llain las bresennol.*

- *Cyfeiriwyd y Preswylydd at dudalen we Cynllun Llywodraeth Cymru i gael rhagor o wybodaeth a chafodd wahoddiad i fynychu'r digwyddiadau arddangos galw heibio i drafod unrhyw ymholiadau yn uniongyrchol ag aelodau o dîm y prosiect.*

Ni fynegodd y preswylydd wrthwynebiad i'r Gorchmynion drafft ac ni wnaeth unrhyw sylwadau yn ymwneud ag egwyddor y Cynllun nac ynglŷn â chaffael tir yn orfodol.

42. Cyfoeth Naturiol Cymru (Tîm Trwyddedu Morol)

Cysylltodd Cyfoeth Naturiol Cymru, drwy ei Dîm Trwyddedu Morol, â Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â gweithgareddau morol trwyddedadwy sy'n gysylltiedig â Chynllun Adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy yr A494. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod cais am drwydded forol wedi cael ei gyflwyno ar gyfer gwaith ar Afon Dyfrdwy, a gofynnodd am eglurhad ynghylch y rhyngweithio rhwng y broses trwyddedu morol a phenderfynu ar y Gorchmynion drafft.

Cadarnhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru nad oedd eu gohebiaeth yn gwrthwynebu'r Gorchmynion drafft.

- *Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymgysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru i egluro'r prosesau statudol perthnasol a'r berthynas rhwng y drefn trwyddedu morol a gwneud y Gorchmynion.*

- *Cafodd materion yn ymwneud â gweithgareddau trwyddedadwy yn Afon Dyfrdwy eu symud ymlaen ar wahân drwy'r broses trwyddedu morol, gan gynnwys y cais am Drwydded Forol, cyfeirnod CML2563.*

Nid oedd Cyfoeth Naturiol Cymru (Tîm Trwyddedu Morol) yn gwrthwynebu'r Gorchmynion drafft.

43. Cyfoeth Naturiol Cymru (Cynllunio Datblygu)

Cyflwynodd Cyfoeth Naturiol Cymru, drwy ei Dîm Cynllunio Datblygu, sylwadau mewn perthynas â materion amgylcheddol sy'n deillio o Gynllun Adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy yr A494.

- *Mae'r materion a godwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac ymateb Llywodraeth Cymru wedi'u nodi ym mharagraff 31 y llythyr hwn.*

Nid oedd Cyfoeth Naturiol Cymru (Cynllunio Datblygu) yn gwrthwynebu'r Gorchmynion drafft.

44. ADDASIADAU I'R GORCHMYNION DRAFFT

Mae dau addasiad arfaethedig i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl drafft a phum addasiad arfaethedig i'r Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft oherwydd gwrthwynebiadau a gafwyd yn ystod cyfnod gwrthwynebu'r Gorchymyn drafft.

Cynigir y ddau addasiad canlynol i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl drafft.

44.1 Addasiad Gorchymyn Ffyrdd Ymyl Rhif 1 - Bydd rhan o led y ffordd fynediad breifat newydd 2/10a ym mewnosodiad A ar Gynllun Safle 2a yn cael ei leihau fel y dangosir ar y llun sydd ynghlwm o'r enw Addasiad Gorchymyn Ffyrdd Ymyl Rhif 1. Cynigir yr addasiad hwn i'r SRO er mwyn mynd i'r afael â gwrthwynebiadau Lindop Toyota i'r Gorchmynion drafft.

44.2 Addasiad Gorchymyn Ffyrdd Ymyl Rhif 2 - Bydd y rhan o Lwybr Troed 6 (Gorllewin Saltney) i'w gwella i'r gogledd-ddwyrain o gyffordd y priffyrdd cyhoeddus diddosbarth a elwir yn Chemistry Lane a Factory Road yn cael ei addasu fel y dangosir ar y lluniad sydd ynghlwm o'r enw Addasiad Gorchymyn Ffordd Ymyl Rhif 2.

44.3 Bydd lleoliad y ffordd ddiddosbarth newydd 2/C ym mewnosodiad B ar Gynllun Safle 2a yn cael ei addasu fel y dangosir ar y lluniad sydd ynghlwm o'r enw Addasiad Gorchymyn Ffyrdd Ymyl Rhif 2.

44.4 Bydd y darn o'r ffordd ddiddosbarth newydd 2/D ym mewnosodiad B ar Gynllun Safle 2a yn cael ei addasu fel y dangosir ar y lluniad sydd ynghlwm o'r enw Addasiad Gorchymyn Ffyrdd Ymyl Rhif 2.

44.5 Cynigir Addasiad Gorchymyn Ffyrdd Ymyl Rhif 2 (a restrir ym mharagraffau 44.2, 44.3 a 44.4) mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gan SP Manweb Plc mewn perthynas â mynediad i'r depo a'r llwybrau teithio llesol, fel y'i disgrifir yn fanwl yn Adran 27 y llythyr hwn.

Cynigir y pum addasiad canlynol i'r Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft.

44.6 Mae Addasiad Gorchymyn Prynu Gorfodol Rhif 1 yn diwygio'r Gorchmynion Prynu Gorfodol ar blotiau 2/3r a 2/3s. Mae'r addasiad yn newid plot 2/3r i gynnwys caffael y llwybr presennol yn barhaol fel rhan o blot gwreiddiol 2/3s hyd at ymyl llwybr troed y briffordd gyhoeddus (B5441 Station Road) gan gynyddu maint arwynebedd 2/3r. Bydd cynyddu plot 2/3r a lleihau plot 2/3s a disgrifiadau plot cysylltiedig yn amserlen y Gorchymyn Prynu Gorfodol yn cael ei ddiwygio yn unol â hynny. Nid ydym yn gwybod pwy biau'r tir.

Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ

44.7 Mae Addasiad Gorchymyn Prynu Gorfodol Rhif 2 yn diwygio plotiau Gorchymyn Prynu Gorfodol 2/8a a 2/8b yn dilyn gohebu â pherchnogion y plotiau hyn; Lindop Property Limited (Rhydd-ddeiliad) a Steve Hopewell Holdings Limited (Lesddeiliad). Mae'r addasiad yn diwygio aliniad y llwybr arfaethedig mewn perthynas â phlot 2/8a, gan arwain at ostyngiad bach yn ei ardal gyffredinol. Mae hefyd yn lleihau maint plot 2/8b er mwyn cyfyngu ar hyd a lled yr ardaloedd gweithio dros dro o fewn safle Lindop Toyota Queensferry. Bydd angen rhan o'r plot 2/8b blaenorol ar gyfer caffael parhaol i gyd-ffinio â'r llwybr arfaethedig (plot 2/8a), a bydd plot caffael newydd yn cael ei greu a'i nodi fel 2/8d. Gwnaed y diwygiad arfaethedig hwn i sicrhau, yn dilyn y Cynllun, bod ffin perchnogaeth tir Lindop Toyota yn cyd-fynd â hyd a lled y ffens derfyn newydd arfaethedig. Mae cynnydd bychan hefyd yn y tir sydd i'w gaffael ym mhlot 2/8c, sy'n deillio o ddiwygio aliniad y llwybr ym mhlot 2/8a i wella plotiau gweledd y ~~llwybr~~ ar y gyffordd. Mae'r tirfeddianwyr yr effeithir arnynt wedi cadarnhau eu bod yn cytuno â'r addasiadau. Cynigir Addasiadau Gorchymyn Prynu Gorfodol 1 a 2 er mwyn mynd i'r afael â gwrthwynebiadau Lindop Toyota i'r Gorchmynion drafft.

44.8 Ar ôl ymgysylltu ag SP Manweb Plc ynghylch trefniadau mynediad i ddepo Factory Road / Queensferry, a gwelliannau dylunio dilynol i'r cynllun cerddwyr, beicwyr a'r briffordd (fel y nodir yn Adran 27 y llythyr hwn), cynigir Addasiadau Gorchymyn Prynu Gorfodol Rhif 3 i 5 i ddiwygio plotiau perthnasol y Gorchymyn Prynu Gorfodol.

44.9 Mae Addasiad Gorchymyn Prynu Gorfodol Rhif 3 yn diwygio plotiau 2/3, 2/3a a 2/3b i ail-alinio ffiniau'r plot i ddilyn aliniad diwygiedig y llwybrau troed i gerddwyr, y llwybr beicio a'r gwaith tirweddu cysylltiedig. Mae'r addasiad yn cynyddu maint plotiau 2/3 a 2/3b ac yn lleihau maint plot 2/3a. Ar ben hynny, mae plot newydd (2/3t) wedi cael ei greu i adlewyrchu'r gyfran o dir anhysbys sydd ei angen yn y llwybr cyd-ddefnyddio newydd. Diwygiwyd y disgrifiadau cysylltiedig o'r plotiau yn Atodlen y Gorchymyn Prynu Gorfodol yn unol â hynny. Nid ydym yn gwybod pwy sy'n berchen ar y tir, ac mae'r newidiadau'n ymwneud ag alinio ffiniau'r plotiau yn unig; nid oes angen unrhyw dir ychwanegol y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes wedi'i gynnwys yn y gorchymyn prynu gorfodol.

44.10 Mae Addasiad Rhif 4 yn diwygio plotiau Gorchymyn Prynu Gorfodol 2/4, 2/4a, 2/4b, 2/4c, 2/4d a 2/4e yn dilyn ymgysylltu parhaus â'r tirfeddiannwr cyfagos (SP Manweb Plc). Mae'r addasiad yn lleihau maint plotiau 2/4, 2/4a a 2/4c ac yn cynyddu cyfanswm arwynebedd cyfunol plotiau 2/4b a 2/4d. Ar ben hynny, cafodd plot newydd (2/4e) ei greu i adlewyrchu'r gwaith o isrannu plotiau o dir er mwyn ymgorffori'r llwybr troed newydd i gerddwyr. Diwygiwyd y disgrifiadau cysylltiedig o'r plotiau yn Atodlen y Gorchymyn Prynu Gorfodol yn unol â hynny. Diwygiwyd ffiniau'r plot i gyd-fynd â dyluniad diweddaraf y llwybr beicio a'r llwybr troed i gerddwyr. Nid oes angen unrhyw dir ychwanegol gan fod yr holl ddiwygiadau o fewn terfynau gwreiddiol y tir sydd i'w gaffael yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol, ac nid yw'n cynnwys unrhyw dir pellach o Ystâd Gladstone. Mae'r tirfeddiannwr yr effeithir arno (Ystâd Gladstone) wedi cael gwybod am y newidiadau ac wedi cadarnhau ei fod yn cytuno â'r aliniad diwygiedig.

44.11 Mae Addasiad Rhif 5 yn diwygio plotiau Gorchymyn Prynu Gorfodol 2/5, 2/5a, 2/5b, 2/5c, 2/5d a 2/5e yn dilyn gohebiaeth â pherchennog y plotiau hynny; SP Manweb

Plc. Mae'r addasiad yn lleihau cyfanswm arwynebedd cyfun plotiau 2/5, 2/5a, 2/5d a 2/5e i adlewyrchu aliniad diwygiedig y llwybr troed i gerddwyr a'r tirlunio sy'n gysylltiedig ag adleoli'r groesfan nad yw'n cael ei rheoli. Mae cynnydd cyfatebol yn arwynebedd plotiau 2/5b a 2/5c. Mae Plot 2/5e wedi cael ei hepgor fel rhan o'r diwygiadau hyn. At ei gilydd, bydd arwynebedd yr ardal a fydd yn cael ei chaffael oddi wrth SP Manweb Plc yn llai. Diwygiwyd y disgrifiadau cysylltiedig o'r plotiau yn Atodlen y Gorchymyn Prynu Gorfodol yn unol â hynny. Mae'r tirfeddianwyr yr effeithir arnynt wedi cadarnhau eu bod yn cytuno â'r newidiadau hyn. Gwnaed addasiadau Rhif 3, 4 a 5 i'r Gorchymyn Prynu Gorfodol i fynd i'r afael â phryderon SP Manweb Plc ynghylch mynediad, symudiadau cerbydau a threfniadau croesi i gerddwyr/beiciau a godwyd yn ystod cyfnod gwrthwynebu'r Gorchmynion drafft.

Mae'r diwygiadau canlynol i blotiau'r Gorchymyn Prynu Gorfodol wedi'u gwneud o ganlyniad i wybodaeth a ddaeth i law yn dilyn cyhoeddi'r Gorchmynion drafft.

44.12 Ar ôl cwblhau'r gwaith o gofrestru Garners Yard o dan y teitl CYM916781 ac egluro'r ffiniau perchnogaeth tir, mae diwygiadau wedi cael eu gwneud i blotiau canlynol y Gorchymyn Prynu Gorfodol: 2/9, 2/9a, 2/9b, 2/9c, 2/9d, 2/9e, 2/9f, 2/9g, 2/9h, 2/9j, 2/9k, 2/9m a 2/9n. Mae plotiau 2/9e, 2/9j a 2/9n, fel y nodir yn y Gorchmynion drafft, wedi cael eu hymgorffori ym mhlot 2/9d ar ôl i'r teitl rhybudd CYM492946 ddod i ben. Mae diwygiadau canlyniadol wedi cael eu gwneud i rifau'r plotiau hefyd, gan gynnwys dileu plotiau blaenorol 2/9p, 2/9q, 2/9r, 2/9s a 2/9t.

44.13 Mae'r diwygiadau'n cynyddu arwynebedd plotiau 2/9d, 2/9e a 2/9f ac yn lleihau arwynebedd plotiau 2/10w, 2/10x a 2/10y i sicrhau bod plotiau'r Gorchymyn yn cyd-fynd â'r ffin gofrestredig sydd â'r teitl CYM916781 ac aliniad y llifddor a'r ollyngfa arfaethedig i Afon Dyfrdwy.

44.14 Mae'r eglurhad o'r ffiniau perchnogaeth tir hefyd wedi sefydlu bod y fynedfa i Garners Yard y tu allan i'r teitl CYM916781 a'i fod yn dir sydd heb ei gofrestru a heb berchennog hysbys. Felly, mae plotiau newydd 2/11, 2/11a, 2/11b a 2/11c wedi cael eu creu i nodi'r ardaloedd perthnasol o dir yn y Gorchymyn. Diwygiwyd y disgrifiadau cysylltiedig o'r plotiau yn Atodlen y Gorchymyn Prynu Gorfodol yn unol â hynny.

44.15 Mae ffiniau plotiau'r Gorchymyn Prynu Gorfodol ar gyfer Plotiau 3/1, 3/1a, 3/2, 3/2b, 3/2e, 3/2f, 3/2g, 3/2h, 3/4, 3/4a, 3/4b a 3/4c wedi cael eu diwygio, ac mae Plot 3/2q newydd wedi cael ei gyflwyno, fel bod ffiniau'r plot yn cyfateb i'r llinell ffens arfaethedig, yr ymyl gysylltiedig, a Llwybr 568 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol a Llwybr Arfordir Cymru. Mae'r diwygiadau'n arwain at ehangu Plotiau 3/1a, 3/2b, 3/2h, 3/4, 3/4a a 3/4b, a lleihau Plotiau 3/1, 3/2, 3/2e, 3/2f, 3/2g a 3/4c yn gyfatebol.

44.16 Mae Plot newydd 3/2q yn cynnwys y llain las a'r llinell ffens sy'n gysylltiedig â'r llwybr beicio, sydd i'w cynnal a'u cadw gan Weinidogion Cymru. Mae'r addasiadau'n newid y ffiniau a'r buddiannau rhwng y plotiau yr effeithir arnynt i adlewyrchu'r tir a'r hawliau sy'n ofynnol ar gyfer y Cynllun. Mae'r holl ffiniau plotiau sydd wedi'u diwygio yn dal o fewn cwmpas cyffredinol y tir a nodwyd yn flaenorol yn y Gorchymyn.

45. YSTYRIAETH A PHENDERFYNIAD Y GWEINIDOG

45.1 Mae'r Gweinidog yn nodi bod gweddill y gwrthwynebiadau perthnasol yn ymwneud â'r Gorchymyn Prynu Gorfodol ac yn ymwneud â materion iawndal yn unig. O'r herwydd, mae'n fodlon y gall yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd) ddelio â'r materion hynny at ddibenion paragraff 4(4) o Atodlen 1 i Ddeddf Caffael Tir 1981 ac felly gellir eu diystyru at ddibenion ymchwiliad.

45.2 Felly, mae'r Gweinidog yn fodlon bod ganddo ddigon o wybodaeth ger ei fron i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth heb gynnal ymchwiliad o'r fath.

45.3 Mae'r Gweinidog wedi ystyried yr achos yn ofalus o safbwynt y Cynllun, y Datganiad Amgylcheddol a'r holl safbwyntiau a fynegwyd gan y cyhoedd a chyrff ymgynghori.

45.4 Mae'r Gweinidog yn derbyn bod angen y Cynllun hwn am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 2 i 5 y llythyr hwn, ond bod yn rhaid cydbwyso'r angen hwn yn erbyn effaith amgylcheddol y Cynllun ac unrhyw farn a fynegir gan aelodau'r cyhoedd a chyrff ymgynghori.

45.5 Mae hefyd yn fodlon bod yr asesiad o'r effaith amgylcheddol, yr adroddir arno yn y Datganiad Amgylcheddol, yn bodloni gofynion Cyfarwyddeb y Cyngor 2011/92/EU (fel y'i diwygiwyd); bod yr Asesiad o'r Goblygiadau ar Safleoedd Ewropeaidd yr adroddwyd arnynt yn y Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol o effeithiau posibl y Cynllun ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn unol â'r Rheoliadau Cynefinoedd, gan weithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC; a bod gofynion Rhan VA o Ddeddf Priffyrdd 1980 wedi cael eu bodloni. Nododd y Gweinidog fod Gweinidog y Cabinet dros Gynaliadwyedd a Chydnerthedd Gwledig wedi cymeradwyo'r Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol (MA_LGRR_1507_26).

45.6 Mae'r Gweinidog wedi ystyried yn ofalus a yw'r dibenion y paratowyd y Gorchymyn Prynu Gorfodol ar eu cyfer ar ffurf drafft yn cyfiawnhau ymyrryd â hawliau dynol y rheini sydd â buddiannau yn y tiroedd yr effeithir arnynt ac y bydd y Cynllun yn effeithio arnynt fel arall. Mae'n fodlon bod cyfiawnhad dros ymyrraeth o'r fath gan ei fod yn fodlon bod angen cryf i gaffael y tir sy'n destun y gorchymyn prynu gorfodol, yn orfodol er budd y cyhoedd. Mae'n fodlon na fyddai modd cyflawni dibenion y Gorchmynion drwy ddulliau eraill. Yn benodol, mae wedi ystyried darpariaethau Erthygl 8 ac Erthygl 1 y Protocol Cyntaf i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Yn hyn o beth, mae'r Gweinidog yn fodlon bod cydbwysedd teg wedi'i daro wrth wneud y gorchymyn Prynu Gorfodol rhwng defnyddio pwerau prynu gorfodol, y gorchmynion perthnasol a hawliau'r gwrthwynebwyr.

45.7 Mae'r Gweinidog wedi ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf 2015") ac mae o'r farn y bydd y Cynllun yn cyfrannu at nodau llesiant Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang,

45.8 Mae'r Gweinidog hefyd yn fodlon bod camau gweithredu Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r Cynllun hwn yn cyd-fynd â'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf 2015 ac felly'n cyd-fynd ag egwyddor datblygu cynaliadwy fel y nodir yn Adroddiad Cam 3 yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn https://www.llyw.cymru/a494-pont-afon-dyfrdwy.

Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ

45.9 O ganlyniad, ar 27 Hydref 2026, penderfynodd y Gweinidog y gall y gwelliant hwn y mae mawr ei angen fynd rhagddo, a gwnaed y Gorchmynion drafft sy'n ymgorffori'r addasiadau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 44.1 i 44.16. Bydd y Gorchmynion yn dod yn weithredol ar ddyddiad cyhoeddir am y tro cyntaf yr hysbysiad hwn sy'n cyhoeddi ei fod yn cael ei wneud.

46. CYFLEU'R PENDERFYNIAD

46.1 Mae'r llythyr hwn a'r Hysbysiad Cyhoeddus amgaeedig wedi cael eu hanfon at bawb a fynegodd farn ar y Cynllun. Mae copïau o'r llythyr hwn a'r Hysbysiad Cyhoeddus amgaeedig, ynghyd â'r Datganiad Amgylcheddol, y Crynodeb Annhechnegol a'r Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol hefyd ar gael i'w harchwilio yn y lleoliadau a restrir ym mharagraff 13 uchod tan 31 Rhagfyr 2026.

47. YR HAWL I HERIO

47.1 Os bydd unrhyw un a dramgwyddir gan y Gorchymyn Llinell a Phont neu'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl yn dymuno cwestiynu eu dilysrwydd, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth ynddynt, ar y sail:

a) nad ydynt o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980; neu
b) na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad yn y Ddeddf honno na rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf,

bod y person hwnnw, o fewn 6 wythnos ar ôl i'r Gorchmynion ddod yn weithredol, yn gwneud cais at y diben hwnnw i'r Uchel Lys.

47.2 Os bydd unrhyw un a dramgwyddir gan y Gorchymyn Prynu Gorfodol yn dymuno cwestiynu ei ddilysrwydd, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth ynddo, ar y sail:

a) nad oes pŵer i roi awdurdodiad ar gyfer prynu gorfodol a ganiateir drwy hynny o dan Ddeddf Caffael Tir 1981 nac unrhyw ddeddfiad o'r fath sy'n cael ei grybwyll yn adran 1(1) o'r Ddeddf honno; neu
b) na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad perthnasol mewn perthynas â'r Gorchymyn Prynu Gorfodol,

bod y person hwnnw, o fewn 6 wythnos ar ôl i'r Gorchymyn Prynu Gorfodol ddod yn weithredol, yn gwneud cais i'r Uchel Lys.

Yn gywir



Andy Falleyn
Dirprwy Gyfarwyddwr Cyflenwi Seilwaith a Rheoli Rhwydwaith

Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ

ATODIAD A

Rhestr o'r Ymgynghoreion

Partïon statudol a/neu bartïon yr effeithir arnynt yn uniongyrchol	**Anstatudol**
Pob eiddo o fewn 100m i'r Cynllun	Llwythi Annormal (National Highways)
Pob tirfeddiannwr a thirfeddiannwr yr effeithir arno'n uniongyrchol	Airbus
Cymuned Sipsiwn a Theithwyr Riverside	Uchelgais Gogledd Cymru
Llywodraeth Cymru (Gweinidogion Cymru)	Trenau / Bysiau Arriva Cymru
Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cyngor Sir y Fflint* ***Yn gyfrifol am ddosbarthu deunyddiau ymgynghori gydag aelodau etholedig lleol a chynghorau cymuned eraill i'r rhai a restrir isod**	British Gas
Cyngor Cymuned Queensferry	Cable & Wireless Communications UK
Cyngor Cymuned Sealand	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Cyngor Cymuned Penarlâg	Glandŵr Cymru
Cyngor Tref Shotton	CBI Cymru
CADW	Cyngor Caer a Gorllewin Swydd Gaer
Cyfoeth Naturiol Cymru	Cydbwyllgor Ymgynghorol AONB Bryniau Clwyd
Network Rail / Network Rail Infrastructure Limited	Awdurdod Cymwys Rheoli peryglon damweiniau mawr (COMAH)
Dŵr Cymru	Cycling UK
Heddlu Gogledd Cymru	Fforwm Busnes Glannau Dyfrdwy
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru	Ymddiriedolaeth Gymunedol Glannau Dyfrdwy

Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ

Partïon statudol a/neu bartïon yr effeithir arnynt yn uniongyrchol	Anstatudol
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	Sefydliad Seilwaith Amddiffyn
Scottish Power UK	DVSA
Scottish Power Energy Networks	E.ON UK
SP Manweb PLC	Asiantaeth yr Amgylchedd
Wales & West Utilities PLC	Undeb Amaethwyr Cymru
Openreach Ltd	Fibrespeed Ltd (Cysylltu Cymru Ddigidol)
Vodafone	Cymdeithas Ddiwylliannol Fwslimaidd Sir y Fflint
Virgin Media Limited	Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau
Fibrespeed Ltd (Zayo)	Dŵr Hafren Dyfrdwy
National Grid UK	Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Amddiffyn Peiriannau'r Grid Cenedlaethol	HERE London
Cadent Gas Ltd	HERE Technologies
AtkinsRealis - D/o Atkins Telecoms	Pwyllgor Sefydliad Materion Cymreig Cymru
	Cymdeithas Islamaidd Cymru
	Lovell Johns Ltd
	National Express
	Priffyrdd Cenedlaethol
	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
	Network Rail Diogelu Asedau
	Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
	Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru
	LGBT Gogledd Cymru (Rustic Rainbow)

Partïon statudol a/neu bartïon yr effeithir arnynt yn uniongyrchol	Anstatudol
	Twristiaeth Gogledd Cymru
	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
	Y Gymdeithas Mannau Agored
	Bysiau P&O
	Y Cerddwyr
	Rhwydwaith Hawl i Reidio (SCOPE)
	Cymuned Sipsiwn a Theithwyr Riverside
	Y Gymdeithas Cludo ar y Ffyrdd
	Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (Cymru)
	RSPB (Grŵp Lleol Gogledd Cymru)
	Severn Trent
	Sustrans Cymru
	Cymdeithas Ceffylau Prydain
	Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys
	Yr Awdurdod Glo (Yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio)
	Ystâd y Goron
	FDF Centre for Independent Living (Elusen anabledd yn Sir y Fflint)
	Trafnidiaeth Cymru
	Beicio Cymru
	Welsh Trail Riders Association (WTRA) Ltd
	Siambr Fasnach Gorllewin Swydd Gaer a Gogledd Cymru